futurefit
Shaping healthcare together

NHS



Cael dweud eich dweud ynglŷn â gwella ein gwasanaethau ysbyty i bobl yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru

Ymgynghoriad Cyhoeddus

30 Mai 2018
-
4 Medi 2018



Rhaglen Future Fit GIG dan arweiniad:

Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Telford & Wrekin

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei arwain gan Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Telford & Wrekin. Y ni ydy'r sefydliadau sy'n gyfrifol am brynu a phenderfynu ar wasanaethau gofal iechyd yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin ar eich rhan. Nod y ddogfen hon ydy:

- Esbonio pam fod angen inni wneud newidiadau i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol
- Esbonio ein cynnig am newid ein gwasanaethau ysbyty a'r ddau opsiwn rydyn ni eisiau'ch barn chi arnyn nhw
- Dweud wrthoch chi am yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio
- Esbonio beth y byddai'r newidiadau hyn yn ei olygu i chi a'ch teulu
- Esbonio sut y gall pobl a sefydliadau ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru gymryd rhan a beth sy'n digwydd nesaf
- Ceisio'ch barn chi trwy ofyn ichi lenwi ein harolwg yn www.nhsfuturefit.org neu yn nhudalennau canol y ddogfen hon



Beth dydy'r ymgynghoriad hwn **ddim** yn edrych arno

Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni'n gweithio gyda chleifion, gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd a'r sector gwirfoddol i edrych ar ffyrdd y gallwn ni wella ein gwasanaethau iechyd lleol. Mae'r gwaith hwn yn rhan o gylch gorchwyl Partneriaeth Cynaliadwyedd a Thrawsnewid Sir Amwythig a Telford & Wrekin ac mae'n cynnwys ei gwneud hi'n haws i bobl weld meddyg teulu, cyflymu diagnosis o ganser a thrin pobl yn agosach at gartref.

Dydy'r ymgynghoriad hwn ddim yn eich holi ynglŷn ag unrhyw wasanaethau sydd mewn lleoliadau heblaw am naill ai Ysbyty Brenhinol Amwythig neu Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol. Mae hyn yn cynnwys ysbytai cymunedol, unedau cymunedol y mae bydwragedd yn eu harwain a gwasanaethau cymunedol. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd angen inni ofyn ichi am eich barn ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r gwasanaethau hyn. (Gallwch chi ddarllen mwy am hyn ar dudalen 39).

Dydy'r ymgynghoriad hwn ddim yn gofyn ichi ychwaith am eich barn ar leoliad gwasanaethau dydd canser oedolion, sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ar hyn o bryd. Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad hwn, fe fyddai gwasanaethau dydd canser oedolion yn aros yn Ysbyty Brenhinol Amwythig. Fodd bynnag, y tu allan i'r ymgynghoriad hwn, mae Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford yn edrych i weld a oes yna gyfleoedd lle gellid darparu rhai gwasanaethau dydd canser oedolion yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn y dyfodol.

Cynnwys



Neges oddi wrth arweinwyr meddygon teulu yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin **5**

Pam fod angen newid **10**

Yr opsiynau rydyn ni'n gofyn am eich barn chi arnyn nhw **14**

Pa wasanaethau fyddai'n cael eu darparu yn y ddau ysbyty? **16**

Safle Gofal Argyfwng: Pa wasanaethau fyddai'n cael eu darparu yno? **18**

Safle Gofal Cynlluniedig: Pa wasanaethau fyddai'n cael eu darparu yno? **20**

Beth fyddai'r newidiadau hyn yn ei olygu i chi a'ch teulu? **22**

Dweud eich dweud: Arolwg ichi ei lenwi a'i ddychwelyd i ddweud eich barn wrthon ni **tudalennau canol**

Pa effaith y mae'r newidiadau hyn yn ei chael ar ddewis cleifion? **23**

Pa effaith y mae'r newidiadau hyn yn ei chael ar wasanaethau strôc? **23**

Yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio **24**

Teithio i'n hysbytai **30**

Sut mae meddygon, nyrsys, staff eraill a chleifion wedi chwarae rhan **32**

Sut inni benderfynu ar yr opsiynau rydyn ni'n gofyn am eich barn chi arnyn nhw **33**

Y broses sicrwydd rydyn ni wedi'i dilyn **36**

Dadansoddiad o gydraddoldeb **38**

Gwella gofal y tu allan i'r ysbyty yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin **39**

Sut y gallwch chi chwarae rhan **41**

Geirfa **42**

Cysylltu â ni

Mae'r ddogfen Gymraeg hon hefyd ar gael ar ffurf dogfen print bras Word ac fel dogfen Word i'w defnyddio â rhaglenni darllen sgrin. Mae hi hefyd ar gael yn Saesneg ac mewn fformat Saesneg hawdd i'w ddarllen. Mae'r rhain ar ein gwefan yn: www.nhsfuturefit.org

Os hoffech chi gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol neu mewn iaith arall ffoniwch 0300 3000 903 (peiriant ateb 24 awr) neu anfonwch e-bost i: nhsfuturefit@nhs.net

Aby uzyskać ten dokument w innym formacie lub języku skontaktuj się z nami pod numerem 0300 3000 903 (całodobowa automatyczna sekretarka) lub wysyłając email: nhsfuturefit@nhs.net

ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਸ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਨੂੰ ਕਿਸੇ ਹੋਰ ਫ਼ੋਰਮੈਟ (ਰੂਪ) ਜਾਂ ਕਿਸੇ ਹੋਰ ਭਾਸ਼ਾ ਵਿੱਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਤਾਂ ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ 0300 3000 903 (24 ਘੰਟੇ ਦੀ ਜਵਾਬ ਦੇਣ ਵਾਲੀ ਮਸ਼ੀਨ) 'ਤੇ ਕਾਲ ਕਰੋ ਜਾ :

nhsfuturefit@nhs.net 'ਤੇ ਈਮੇਲ ਕਰੋ

اگر آپ یہ دستاویز کسی مختلف شکل یا دیگر زبان میں چاہیں تو براہ کرم 0300 3000 903 (24 گھنٹے جوابی مشین) پر فون یا nhsfuturefit@nhs.net پر ایمیل کریں۔

Gallwch chi hefyd ofyn am gopi o'n dogfen ymgynghori gryno. Mae'r ddogfen fyrrach hon yn rhoi'r brif wybodaeth sydd yn y ddogfen hon ichi.

Gallwch chi ddefnyddio'r dulliau a ganlyn i gysylltu â ni:

Ffôn: 0300 3000 903 **E-bost:** nhsfuturefit@nhs.net

Trwy'r post: FREEPOST NHS FF CONSULTATION **Twitter:** @NHSFutureFit **Facebook:** facebook.com/nhsff


Gwefan: Mae'r holl ddogfennau a gwybodaeth ategol ar gael yn: www.nhsfuturefit.org

Rydyn ni eisiau clywed eich barn chi

Fe fydd eich adborth ar yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu ni i wneud yn siŵr ein bod ni'n darparu gwasanaethau ysbyty diogel, o ansawdd uchel i'n cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru.

Fe fydden ni'n ddiolchgar pe gallech chi gymryd yr amser i ddarllen y ddogfen hon a chwblhau ein harolwg, sydd i'w weld ar ein gwefan: www.nhsfuturefit.org. Fel arall, gallwch chi gwblhau copi papur o'r arolwg sydd wedi'i gynnwys yn nhudalennau canol y ddogfen hon. A fyddech cystal â dychwelyd hwn yn rhad ac am ddim i FREEPOST NHS FF CONSULTATION. Nid oes angen rhoi stamp ar yr amlen. Rhaid derbyn pob arolwg erbyn y dyddiad cau, sef 12am (canol nos) ar 4 Medi 2018.

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhai geiriau meddygol a thechnegol. Ceir diffiniad o'r geiriau hyn yn yr eirfa ar ddiwedd y ddogfen hon (tudalen 42). Cysylltwch â ni os hoffech chi inni esbonio unrhyw ran o'r ddogfen.



Neges oddi wrth arweinwyr meddygon teulu yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin





Dr Jo Leahy, Cadeirydd, Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Telford & Wrekin a Dr Julian Povey, Cadeirydd, Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig

Mae gan bob claf hawl i ddisgwyl gofal GIG diogel ac o ansawdd uchel nawr ac yn y dyfodol.

Fel Cadeiryddion Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin sy'n arwain proses Future Fit y GIG, rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cleifion a'n cymunedau ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru'n derbyn y gofal iechyd gorau oll o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd

Yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford, darperir gofal 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos i fwy na hanner miliwn o gleifion ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru. Darperir amrywiaeth eang o wasanaethau yn y ddau ysbyty, o apwyntiadau a phrofion i gleifion allanol, i weithdrefnau a llawdriniaethau cymhleth. Darperir gofal a thriniaeth hefyd i gleifion sydd mewn argyfwng.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae hi wedi dod yn fwyfwy anodd sicrhau bod y nifer iawn o staff meddygol, nyrsys a staff gofal iechyd eraill tra medrus yn y ddau ysbyty i ddarparu'r amrywiaeth eang hon o wasanaethau i gleifion. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at wasanaeth gwaelach. Er enghraifft, mae rhai cleifion wedi gorfod aros yn hirach i weld meddyg mewn argyfwng, neu mae eu llawdriniaethau wedi'u canslo. Mae hyn yn annerbyniol ac mae angen inni wella.

Mae diffyg meddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn lleol ac yn genedlaethol wedi arwain at anawsterau wrth recriwtio, ac mae'r broblem hon yn gwaethygu. Er mwyn ceisio rheoli hyn, mae Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford (sef darparwr ein gwasanaethau ysbyty) wedi gorfod dibynnu'n drwm ar staff dros dro. Mae hyn wedi cael effaith ar y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, sef problem y dygwyd sylw ati yn adroddiad y Comisiwn Ansawdd Gofal a gyhoeddwyd yn ddiweddar*.

Os y byddwn ni'n parhau fel rydyn ni nawr, dydyn ni ddim yn credu y bydd ein holl gleifion bob amser yn derbyn triniaeth a gofal diogel, o ansawdd uchel. Yr unig ffordd y gallwn ni wneud y gwelliannau y mae angen inni eu gwneud yw trwy newid ein ffordd o gyflenwi gwasanaethau yn ein dau ysbyty. Dydy gwneud dim ac aros fel yr ydyn ni ddim yn opsiwn o gwbl.



**Adroddiad y Comisiwn Ansawdd Gofal ar Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford, Awst 2017*

Model gofal ysbyty newydd

Rydyn ni'n cynnig newid y gwasanaethau ysbyty sy'n cael eu darparu yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford, fel bod:

- un ysbyty'n darparu gwasanaethau gofal argyfwng (yn cynnwys gwasanaethau cleifion mewnol ar gyfer menywod a phlant) ac
- yr ysbyty arall yn darparu gwasanaethau gofal cynlluniedig.

Fe fyddai gan y ddau ysbyty Ganolfan Gofal Brys a fyddai ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio ydy i Ysbyty Brenhinol Amwythig ddod yn safle Gofal Argyfwng ac i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ddod yn safle Gofal Cynlluniedig. Rydyn ni'n gofyn i chi am eich barn.

Gofal heb ei gynllunio ydy **gofal argyfwng.** Mae cleifion yn ei dderbyn pan mae clefyd neu anaf yn bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff.

Gofal ar gyfer clefydau ac anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am sylw brys ydy **gofal brys.**

Llawdriniaethau, gweithdrefnau ac apwyntiadau sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw ydy **gofal cynlluniedig.**

Pam inni ddewis yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio

Fe fyddai bod â'r safle Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn golygu:

- y gall barhau i fod yn Uned Drawma
- y byddai'n rhaid i lai o bobl deithio'n bellach i gael gofal argyfwng
- y byddai'n diwallu anghenion ein poblogaeth hŷn yn well yn y dyfodol, yn enwedig yn Sir Amwythig a chanolbarth Cymru
- mai dyma sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn y tymor hir

Gallwch chi ddarllen mwy am hyn ar dudalen 24.



Fe fyddai bron 80%* o gleifion yn parhau i fynd i'r un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr ar gyfer gofal argyfwng a brys

Canolfannau Gofal Brys 24/7 yn y ddau ysbyty



Sut y gwnaethon ni gynllunio'r model gofal

Mae'r model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig wedi'i gynllunio gan aelodau'r cyhoedd a mwy na 300 o glinigwyr, meddygon teulu a gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Rydyn ni o'r farn y bydd newid ein gwasanaethau ysbyty fel hyn yn gwneud yn siwr bod cleifion yn derbyn gofal GIG diogel, o ansawdd uchel nawr ac yn y dyfodol.

Mewn blynyddoedd diweddar, rydyn ni wedi gwneud newidiadau i'n gwasanaethau ysbyty, fel Canolfan Menywod a Phlant Sir Amwythig yn Telford a'r Ganolfan Driniaeth yn Amwythig. Beth bynnag y bydd deilliant yr ymgynghoriad hwn, ni fydd yr arian sydd eisoes wedi'i fuddsoddi yn ein gwasanaethau'n cael ei wastraffu a bydd y mannau hyn yn yr ysbytai'n dal i gael eu defnyddio ar gyfer gofal cleifion.

**Wedi'i seilio ar nifer y cleifion a fynychodd adrannau damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn ystod 2016-17. Mae yna esboniad manylach ar dudalen 19.*

Gwrando arnoch chi

Daw'r ymgynghoriad hwn yn sgil swm anferthol o waith y mae Rhaglen Future Fit y GIG wedi'i wneud. Sefydlwyd Future Fit yn 2013 mewn ymateb i 'Alwad i'r Gad' y Llywodraeth a ofynnodd i staff GIG, cleifion, y cyhoedd a gwleidyddion ddod at ei gilydd a chytuno ar ba newidiadau sydd eu hangen i wneud ein gwasanaethau GIG lleol yn barod at y dyfodol.

O'r cychwyn cyntaf, mae meddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill – y bobl sy'n darparu ein gwasanaethau o ddydd i ddydd – wedi arwain rhaglen Future Fit. Cymerodd llawer o aelodau o'r cyhoedd ledled y sir ran yn ein harolwg a digwyddiadau 'Galwad i'r Gad', gan dderbyn bod angen gwneud newidiadau mawr. Ers hynny, maen nhw wedi chwarae rhan weithredol mewn cynllunio a datblygu'r model gofal ysbyty ac wedi cymryd rhan yn y broses rydyn ni wedi mynd trwyddi hyd yma.

Dros y pedair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi gwrando ar, a chynnwys miloedd o bobl leol, gan gynnwys staff GIG, cleifion a grwpiau cymunedol. Rydyn ni wedi cynnal cyfres o sioeau teithiol cyhoeddus a grwpiau ffocws, ac wedi cyflwyno arolygon a chyflwyniadau i gynulleidfaoedd eang, yn amrywio o gynghorau plwyf i fforymau pobl ifanc a fforymau hen bobl. Rydyn ni hefyd wedi cwblhau dau Asesiad Effaith Integredig sy'n asesu effaith bosibl y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig ac unrhyw effeithiau o ran cydraddoldeb. Rhoddwyd sylw i'r Asesiadau hyn fel rhan o broses benderfynu'r Grwpiau Comisiynu Clinigol wrth iddyn nhw ystyried pa opsiwn roedden nhw'n ei ffafrio.

Diolch i bawb sydd wedi chwarae rhan hyd yma. Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi datblygu model arfaethedig rydyn ni o'r farn fydd yn gwella ein modd o ofalu am ein cleifion ac yn sicrhau ein bod ni'n cynnal dau ysbyty prysur a bywiog. Gallwch chi ddarllen mwy am sut i ni ymgysylltu â phobl ar ein gwefan www.nhsfuturefit.org

Mae'r model rydyn ni'n ei gynnig hefyd wedi bod yn destun profion a gwaith craffu annibynnol trwyadl i sicrhau ei fod yn bodloni'r holl safonau perthnasol. Gallwch chi ddarllen mwy am hyn ar dudalen 40 ac ar ein gwefan www.nhsfuturefit.org

Dyma oedd y themâu allweddol y dywedoch chi wrthym ni roeddech chi eu heisiau:

- Dylai gwasanaethau GIG fod yn fwy 'cydgysylltiedig'
- Fy helpu i i ddeall sut i gael gafael ar y gwasanaethau brys iawn
- Fy asesu a'm trin yn ddi-oed ac yn y lle iawn
- Peidio â mynd â fi i'r ysbyty oni bai bod hynny'n angenrheidiol
- Gwneud fy arhosiad yn yr ysbyty'n fyr, yn ddiogel ac yn effeithiol
- Ceisio gofalu amdana' i gartref, hyd yn oed pan rydw i'n sâl





Rydyn ni eisiau clywed eich barn chi

Fel Grwpiau Comisiynu Clinigol, mae gennym ni gyfrifoldeb cyfreithiol i'ch cynnwys ac i ymgynghori â chi pan rydyn ni'n ystyried gwneud newidiadau sylweddol i'n gwasanaethau GIG, ac rydyn ni'n cymryd y cyfrifoldeb hwnnw o ddifrif. Rydyn ni'n bwriadu gwneud newidiadau sylweddol i'n hysbytai i wella gofal cleifion, felly mae'n hanfodol ein bod ni'n cael pethau'n iawn ac fe fydd eich barn chi'n ein helpu ni yn hyn o beth.

Sut y byddwn ni'n penderfynu

Mae barn ac awgrymiadau pawb sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn rhan bwysig o sut y byddwn ni'n penderfynu. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni hefyd gwblhau nifer o ddarnau gwaith cyn gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol. Mae Senedd Glinigol Gorllewin Canolbarth Lloegr, GIG Lloegr ac aelodau o Gyrff Llywodraethu'r Grwpiau Comisiynu Clinigol wedi galw am y rhain.* Ni allwn ni wneud unrhyw benderfyniad ar ddiwedd yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol hyd nes bydd y darnau gwaith hyn wedi'u cwblhau. Maen nhw'n cynnwys gwneud yn siŵr:

- bod mwy o waith yn cael ei wneud i fodelu'r gofal y bydd angen inni ei ddarparu yn y gymuned (mae yna fwy i'w ddarllen am hyn ar dudalen 53)
- bod y Grwpiau Comisiynu Clinigol yn hyderus bod yr opsiynau'n fforddiadwy (mae yna fwy i'w ddarllen am hyn ar dudalen 44)
- ein bod ni'n edrych ar beth y gallai fod angen inni ei wneud i leihau'r effaith i fenywod a phlant a phobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn enwedig o ran teithio (mae yna fwy i'w ddarllen am hyn ar dudalennau 39 a 38)
- ein bod ni'n deall sut y bydd gweithwyr proffesiynol medrus yn staffio'r Ganolfan Gofal Brys ar y safle Gofal Cynlluniedig fel eu bod nhw'n darparu'r gofal lefel uchel y mae galw amdano ar gyfer plant (mae yna fwy i'w ddarllen am hyn ar dudalen 18)
- ein bod ni'n deall effaith y newidiadau arfaethedig ar y galw am wasanaethau ambiwlans brys a di-frys a gwasanaethau cludo cleifion (mae yna fwy i'w ddarllen am hyn ar dudalen 39)
- ein bod ni'n ystyried ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol, gan gynnwys rolau staff newydd (mae yna fwy i ddarllen am hyn ar dudalen 53)

Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, ni fydd unrhyw beth yn digwydd dros nos. Fe fydd hi'n cymryd rhyw bum mlynedd o nawr i roi unrhyw newid ar waith yn llawn ac fe fyddwn ni'n parhau i gynnwys cleifion a'r cyhoedd dros y blynyddoedd sydd ar ddod.

Rydyn ni eisiau i gynifer o bobl â phosibl ymateb i'r ymgynghoriad 14-wythnos hwn erbyn 12am (canol nos) ar 4 Medi 2018. Gallwch chi wneud hyn trwy gwblhau ein harolwg ar-lein yn www.nhsfuturefit.org neu gwblhau copi papur o'r arolwg yng nghanol y ddogfen hon. A fyddech cystal â dychwelyd eich arolwg, wedi'i gwblhau, yn rhad ac am ddim i FREEPOST NHS FF CONSULTATION. Gydol y cyfnod ymgynghori, fe fyddwn ni'n cynnal nifer o ddigwyddiadau lle gallwch chi ddysgu mwy am y newidiadau arfaethedig a rhannu'ch barn. I gael rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dyddiadau digwyddiadau sy'n agos atoch chi, ewch i www.nhsfuturefit.org

** Gofynnwyd am yr amodau yng Nghyd-bwyllgor y Grwpiau Comisiynu Clinigol ym mis Awst 2017 (mae yna fwy i'w ddarllen am hyn ar dudalen 35). Mae'r ffordd y mae'r holl amodau wedi'u geirio, a manylion am y gwaith ychwanegol i'w gwblhau, i'w gweld yn yr Achos Busnes Cyn Ymgynghori yn: http://www.nhsfuturefit.org*

Pam fod angen newid

Darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd da



Y prif reswm pam fod angen inni newid ein gwasanaethau ysbyty ydy i wneud yn siŵr bod ein hysbytai'n darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd da i'r holl gleifion yn y tymor hir. Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod y person iawn yn gweld cleifion ar yr adeg iawn yn y lle iawn, lle bynnag bo hynny'n bosibl. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gwybod dydy hyn ddim bob amser yn digwydd.

Mae ein holl staff ysbyty'n gweithio'n hynod galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau oll i'n cleifion ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae'n dod yn fwy anodd sicrhau bod gennym ni ddigon o feddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill i ddarparu gwasanaeth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos yn ein dau ysbyty. Er y gellir gweld darlun tebyg ar draws y wlad, mae'r broblem hon yn cael effaith fwy yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin oherwydd bod gennym ni ddau safle ysbyty sydd â llai nag 20 milltir rhyngddyn nhw ac sydd ar hyn o bryd yn darparu llawer o'r un gwasanaethau.

Rydyn ni'n ei chael hi'n fwy anodd recriwtio a chadw'r meddygon a'r nyrsys sydd eu hangen arnon ni i ofalu am gleifion yn ein dau ysbyty, yn enwedig o fewn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys a'n gwasanaethau gofal critigol. Mae prinder staff wedi golygu bod ein meddygon wedi gorfod bod ar alwad yn amlach neu weithio oriau ychwanegol ar draws dau safle ysbyty er mwyn cadw cleifion yn ddiogel. Rydyn ni hefyd wedi gorfod recriwtio staff dros dro nad ydyn nhw mor gyfarwydd â'n hysbytai ac sydd felly wedi bod angen cymorth ychwanegol.

Mae hyn oll wedi gosod pwysau cynyddol ar ein meddygon a'n nyrsys sy'n teimlo nad ydyn nhw'n gallu parhau i weithio'r nifer o oriau'r wythnos y maen nhw'n eu gweithio nawr. Mae wedi achosi i rai meddygon adael a chymryd swyddi mewn ysbytai eraill lle maen nhw'n gallu mwynhau cydbwysedd gwell rhwng eu gwaith a'u bywydau personol. **Rydyn ni o'r farn y byddai cael safle Gofal Cynlluniedig a safle Gofal Argyfwng ar wahân yn denu mwy o feddygon a nyrsys i weithio yn ein dau ysbyty yn y dyfodol.**

Newidiadau i'r ffordd o hyfforddi meddygon

Mae'r ffordd wahanol y mae meddygon yn cael eu hyfforddi'r dyddiau hyn yn rheswm arall dros fod angen newid. Gan fod triniaethau a thechnolegau newydd a mwy cymhleth wedi dod ar gael, mae hyfforddiant meddygon wedi dod yn fwy arbenigol. Er enghraifft, 10 mlynedd yn ôl, fe fyddai llawfeddyg yn gwneud nifer o wahanol fathau o lawdriniaethau. Nawr, fe fydd meddyg iau sy'n hyfforddi i ddod yn llawfeddyg yn dewis maes llawdriniaeth arbenigol, er enghraifft llawdriniaeth y fron, ac yn dod yn arbenigwr yn y maes hwnnw.

Mae wedi'i brofi'n genedlaethol bod cael llawfeddygon arbenigol yn arwain at well canlyniadau i gleifion. Mae hyn, yn amlwg, yn newyddion gwych, ond mae'n golygu nad yw ein llawfeddygon yn gallu perfformio llawdriniaethau i'r safonau angenrheidiol mewn meysydd llawdriniaeth sydd y tu hwnt i'w harbenigedd. O'r herwydd, mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd bod â'r nifer iawn o lawfeddygon arbenigol bob amser yn ein dau ysbyty sy'n gallu gwneud llawdriniaethau argyfwng a llawdriniaethau cynlluniedig. **Fe fyddai'r model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig yn helpu i sicrhau bod gennym ni'r nifer iawn o lawfeddygon arbenigol yn ein dau ysbyty i ddiwallu anghenion pob un o'n cleifion.**

Darparu gofal gwell i'n cleifion

Mae ein meddygon a'n nyrsys yn sylwi ar sefyllfaoedd bob dydd lle byddai gofal wedi'i ddarparu i safon uwch o lawer pe bai gennym ni safleoedd ar wahân ar gyfer gofal argyfwng a gofal cynlluniedig. **Daeth ymchwil a gynhaliwyd gan GIG Lloegr i'r casgliad bod cael un safle Gofal Argyfwng gydag Adran Argyfwng benodol, lle mae meddygon arbenigol yn trin yr achosion mwyaf difrifol, yn fwy diogel. Mae hefyd yn darparu canlyniadau gwell i gleifion ac yn cwtogi ar yr amser y mae'n rhaid iddyn nhw aros yn yr ysbyty.**

Ar yr un pryd, **byddai cael un safle Gofal Cynlluniedig yn golygu na fyddai'n rhaid i gleifion aros mor hir am eu llawdriniaeth. Byddai gwelyau ar y safle Gofal Cynlluniedig yn cael eu cadw'n benodol ar gyfer llawdriniaethau cynlluniedig. O ganlyniad, mae'n annhebygol iawn y caiff llawdriniaeth ei chanslo oherwydd nad oes gwely ar gael gan fod claf wedi'i dderbyn mewn argyfwng.** Mae hyn yn digwydd yn ein dau ysbyty ar hyn o bryd oherwydd bod cleifion sydd mewn argyfwng yn cael blaenoriaeth. Byddai hefyd yn gwneud yn siŵr bod y cyfleusterau a'r cyfarpar gorau oll ar gael mewn un lle i'n meddygon, ein nyrsys a'n staff gofal iechyd eraill.

A oeddech chi'n gwybod?

Yn ystod 2016-17, bu'n rhaid canslo rhyw 450 o lawdriniaethau yn ein dau ysbyty ar fyr rybudd oherwydd nad oedd gwely ar gael gan fod claf wedi'i dderbyn mewn argyfwng.

A oeddech chi'n gwybod?

Mae arnon ni angen 20 o feddygon ymgynghorol i redeg ein dwy adran damweiniau ac achosion brys, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Ar hyn o bryd, dim ond pum* ymgynghorydd cyflogedig parhaol sydd gennym ni mewn swydd. Mae hyn yn golygu ein bod ni wedi gorfod dibynnu ar nifer uchel o ymgynghorwyr dros dro. Dydyn ni heb lwyddo i recriwtio ymgynghorydd i weithio yn un o'n hadrannau damweiniau ac achosion brys ers 2012.

Astudiaeth achos: Trawsnewid gofal argyfwng yn Northumbria

Yn 2015, fe agorodd Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Gofal Iechyd Northumbria ysbyty gofal argyfwng arbenigol, penodol cyntaf Lloegr a oedd wedi'i adeiladu i'r diben hwnnw. Fe drawsnewidiodd hyn wasanaethau gofal brys ledled Northumbria a Gogledd Tyneside. Flwyddyn yn ddiweddarach, roedden nhw ymhlith llond dwrn yn unig o ymddiriedolaethau yn genedlaethol a gyrhaeddodd y safon perfformiad o drin 95% o gleifion mewn pedair awr yn 2015/16.



Roedd y ffigur yn gywir ym mis Tachwedd 2017

Newid ein ffordd o drin cleifion mewn argyfwng

Ledled Lloegr, mae ysbytai'n trawsnewid eu gwasanaethau gofal brys a gofal argyfwng fel bod cleifion yn derbyn gofal mwy diogel, cyflymach a gwell.

Mae'r model sy'n bodoli o adrannau damweiniau ac achosion brys ar ôl yr oes. Yn ein dwy adran damweiniau ac achosion brys, rydyn ni'n trin cleifion â mân anafiadau, er enghraifft migwrn wedi troi, ochr yn ochr â chlefyd sy'n bygwth colli bywyd, fel strôc. **Trwy greu safle Gofal Argyfwng ar wahân, gydag Adran Argyfwng benodol, a Chanolfan Gofal Brys 24 awr ar y ddau safle ysbyty, fe fyddai'r meddygon, y nyrsys a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol iawn yn gweld cleifion yn ddiogel ac yn gyflym yn y lle iawn.**

Fe fyddai meddygon a nyrsys yn trin cleifion â chyflyrau llai difrifol yn gyflymach gan na fyddai'n rhaid iddyn nhw adael i roi sylw i rywun sy'n salach. Fe fyddai cleifion â chlefydau neu anafiadau mwy difrifol yn cael eu gweld mewn Adran Argyfwng. Yma, fe fyddai nifer mwy o feddygon a nyrsys â'r hyfforddiant, yr arbenigedd a'r profiad penodol sydd eu hangen arnyn nhw.

Fe fyddai cael safle Gofal Argyfwng ar wahân hefyd yn golygu y gallen ni ddarparu Uned Argyfwng Triniaethau Dydd newydd a mwy. Dyma ffordd yr ydyn ni wedi'i chyflwyno i asesu a thrin cleifion yn ein dau ysbyty. Mae'r uned hon yn caniatáu i'n timau arbenigol asesu, diagnosio a thrin rhai cleifion sydd yna'n mynd adref yr un diwrnod. Rydyn ni'n gwybod bod y model gofal hwn yn gweithio. Mae atal rhai cleifion rhag gorfod aros yn yr ysbyty'n gallu cael effaith bositif ar eu hiechyd, yn enwedig yr henoed, gan fod gorwedd mewn gwely ysbyty'n gallu gwneud cleifion yn wannach ac yn ddryslyd, ac arafu eu hadferiad.

Fodd bynnag, nid oes gennym ni ddigon o adeiladau ar hyn o bryd i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn y ffordd yr hoffen ni eu darparu. **Fe fyddai'r model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig yn golygu y byddai mwy o gleifion ar eu hennill o adran Argyfwng Triniaethau Dydd fwy. Fe fyddai hon wedi'i lleoli y drws nesaf i'r Adran Argyfwng.**

Darparu gwell cyfleusterau i gleifion

Fe adeiladwyd ein dau safle ysbyty presennol llawer o flynyddoedd yn ôl. Er ein bod ni wedi buddsoddi mewn rhai adeiladau newydd mewn blynyddoedd diweddar, mae gennym ni nawr lawer o ardaloedd sydd ar ôl yr oes ac sydd wedi dod yn fwy anodd ac yn ddrutach i ofalu amdanyn nhw. Dydyn nhw ddim yn darparu'r amgylchedd modern i gynnig gwasanaethau o ansawdd uchel sydd eu hangen ar ein cleifion ac y mae ganddyn nhw hawl i'w disgwyl. Rydyn ni'n gwybod bod safonau adeiladu wedi gwella'n fawr erbyn hyn a bod ysbytai newydd yn cael eu hadeiladu i fanyleb uwch wedi'i seilio ar anghenion y claf.



Fe fyddai'r model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig yn caniatáu inni wella ein hadeiladau presennol a chreu rhai adeiladau newydd. Fe fyddai cyfleusterau'n cael eu dylunio i ddiwallu anghenion ein cleifion, eu teuluoedd a'n staff. Fe fyddai hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion yn cael eu cadw mor gyfforddus â phosibl tra'u bod yn aros yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys wardiau â mwy o le i gleifion, nyrsys ac ymwelwyr a mwy o ystafelloedd sengl gyda chyfleusterau en-suite, gan wella preifatrwydd ac urddas i gleifion.

Mae ein poblogaeth yn newid

Mae mwy na hanner miliwn o bobl ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru'n defnyddio ein dau ysbyty. Mae hyn yn cwmpasu ardal ddaearyddol fawr iawn o ryw 2,500 milltir sgwâr. Mae Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru'n dair ardal wahanol iawn gyda gwahanol boblogaethau ac, felly, gwahanol anghenion iechyd. Mae yna amrywiad anferthol hefyd o ran lle mae ein cymunedau'n byw, yn amrywio o ardaloedd adeiledig dwys eu poblogaeth i bentrefi gwledig prin eu poblogaeth.

Rydyn ni'n byw yn hirach. Mae hyn yn newyddion gwych, ond mae'n golygu bod gan nifer cynyddol o bobl fwy nag un cyflwr sy'n gysylltiedig â henaint, er enghraifft clefyd y galon neu dementia. Mae yna hefyd fwy o bobl sy'n byw â chyflyrau iechyd tymor hir, er enghraifft diabetes, neu ag anghenion iechyd mwy cymhleth sy'n galw am ofal rheolaidd yn yr ysbyty sy'n rhoi mwy o bwysau ar y GIG. **Mae'r model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig yn ystyried y newidiadau y disgwylir eu gweld yn ein poblogaeth dros y blynyddoedd sydd ar ddod, a sut y gellir darparu'r gofal gorau i bawb.**

Bod yn fwy effeithlon â'n hadnoddau

Er mai darparu gwasanaethau diogel ac o ansawdd uchel ar gyfer y dyfodol yw'r prif reswm dros newid, mae'n rhaid cymryd cyllid i ystyriaeth. Mae'n rhaid i'r gwasanaeth iechyd yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin gadw at ei gyllideb heb orwario. Fel Grwpiau Comisiynu Clinigol, mae'n rhaid inni allu fforddio'r gwasanaethau iechyd rydyn ni'n eu prynu ar gyfer ein cleifion. Yr un mor bwysig, mae'n rhaid i ddarparwr y gwasanaethau iechyd hynny, sef Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford, gyflenwi'r gwasanaethau hynny am y pris rydyn ni'n gallu ei fforddio. Fel rhan o hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar ddefnyddio gwelyau yn fwy effeithlon i wella perfformiad.

Yn y dyfodol, mae angen inni fod yn fwy effeithlon â'n hadnoddau cyfyngedig. Mae angen inni ddefnyddio ein staff, ein technoleg, ein gwelyau a'n hadeiladau mewn ffordd sydd o'r budd mwyaf i gleifion a'u teuluoedd. Rydyn ni o'r farn bod y model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig, ynghyd â'r gwasanaethau gofal y tu allan i'r ysbyty sy'n cael eu datblygu, yn gwneud hyn. Yn bwysicach fyth, byddai hyn yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir i'n cleifion. **Trwy wneud y newidiadau hyn i'n hysbytai, gallwn ni fod yn fwy effeithlon fel bod ein harian yn mynd yn bellach ac fel bod ein staff yn gallu gweithio'n fwy effeithlon.**

Cwtogi ar yr amser y mae pobl yn ei dreulio yn yr ysbyty

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar wneud newidiadau i'n gwasanaethau ysbyty acíwt. Fodd bynnag, mae'n rhan o'r gwaith ehangach gan y Bartneriaeth Cynaliadwyedd a Thrawsnewid. Gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn y GIG ac awdurdodau lleol sy'n cyflawni'r prosiectau o fewn y Bartneriaeth. Maen nhw'n cydweithio â sefydliadau'r sectorau gwirfoddol a chymunedol i wella iechyd a gofal y boblogaeth leol.

Mae llawer o'r prosiectau o fewn y Bartneriaeth yn edrych ar ffyrdd y gallwn ni ddatblygu gwasanaethau gofal y tu allan i'r ysbyty. Sefyllfa ydy hon lle mae tîm cyd-drefnedig o weithwyr meddygol, nyrsio, therapi, iechyd meddwl ac anableddau dysgu'n gweld ac yn trin cleifion yn eu cymuned leol. Maen nhw hefyd yn edrych ar sut y gallwn ni gwtogi ar nifer yr adegau pan mae angen i gleifion ddod i'r ysbyty. Hefyd, pan mae angen gofal ysbyty ar bobl, sut allwn ni asesu, trin a rhyddhau yn gyflymach y rheini sy'n ddigon da i fynd yn ôl adref neu i ofal cymunedol? Gallwch chi ddarllen mwy am hyn ar dudalen 39.

I grynhoi, fe fydd gwneud newidiadau i'n hysbytai yn helpu i wneud yn siŵr:

- Bod ein cymunedau'n derbyn gwasanaethau ysbyty mwy diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel
- Bod cleifion yn derbyn y gofal gorau oll yn y lle iawn ar yr adeg iawn
- Bod cleifion yn derbyn eu gofal o fewn cyfleusterau gwell
- Ein bod ni'n gallu parhau i gael dau ysbyty prysur a bywiog yn ein sir
- Ei bod hi'n annhebygol iawn y caiff llawdriniaethau cleifion eu canslo oherwydd bod claf wedi'i dderbyn mewn argyfwng
- Ein bod ni'n cwtogi ar amseroedd aros i gleifion yn ein dau ysbyty
- Ein bod ni'n denu'r meddygon, y nyrsys a'r staff gofal iechyd eraill gorau oll i weithio yn ein hysbytai
- Bod gennym ni'r lefel iawn o feddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill tra medrus yn gweithio yn ein dau ysbyty

Yr opsiynau rydyn ni'n gofyn am eich barn chi arnyn nhw

Y model rydyn ni'n ei gynnig yw i un ysbyty ddod yn safle Gofal Argyfwng ac i'r ysbyty arall ddod yn safle Gofal Cynlluniedig, gyda Chanolfan Gofal Brys 24 awr yn y ddau ysbyty. Mae yna ddau opsiwn rydyn ni'n gofyn am eich barn chi arnyn nhw:

Opsiwn 1:

Y safle Gofal Argyfwng ydy
Ysbyty Brenhinol Amwythig, Amwythig

Y safle Gofal Cynlluniedig ydy
Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford

Dyma'r opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio. Fe fyddai bod â'r safle Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn golygu:

- y gall barhau i fod yn Uned Drawma
- y byddai'n rhaid i lai o bobl deithio'n bellach i gael gofal argyfwng
- y byddai'n diwallu anghenion ein poblogaeth hŷn yn well yn y dyfodol, yn enwedig yn Sir Amwythig a chanolbarth Cymru
- mai dyma sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn y tymor hir

Gallwch chi ddarllen mwy am hyn ar dudalen 24.



Yn Ysbyty Brenhinol Amwythig:
Adran Argyfwng 24 awr
Uned Gofal Critigol
Uned Argyfwng Triniaethau Dydd
Llawdriniaeth a meddygaeth argyfwng
Llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth
Gwasanaethau cleifion mewnol dan arweiniad ymgynghorydd ar gyfer menywod a phlant

Yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol:
Llawdriniaeth cleifion mewnol cynlluniedig
Llawdriniaethau achosion dydd
Endosgopi
Gwasanaethau cleifion mewnol y fron
Wardiau meddygol

Ar y ddau safle:
Canolfan Gofal Brys 24 awr
Gwasanaethau cleifion allanol i oedolion a phlant
Uned Achosion Dydd yr Arennau
Profion (diagnosteg)
Uned dan arweiniad bydwragedd
Uned Asesiad Dydd Cynenedigol
Gwasanaeth Asesu Beichiogrwydd Cynnar
Cleifion allanol mamolaeth a gwasanaeth sganio

*Mae geirfa o'r termau a ddefnyddir uchod i'w gweld ar dudalen 42 neu ar y wefan: www.nhsfuturefit.org

Gofal heb ei gynllunio ydy **gofal argyfwng.** Mae cleifion yn ei dderbyn pan mae clefyd neu anaf yn bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff.

Gofal ar gyfer clefydau ac anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am sylw brys ydy **gofal brys.**

Llawdriniaethau, gweithdrefnau ac apwyntiadau sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw ydy **gofal cynlluniedig.**

Opsiwn 2:

Y safle Gofal Argyfwng ydy
Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford

Y safle Gofal Cynlluniedig ydy
Ysbyty Brenhinol Amwythig, Amwythig



Yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol:
Adran Argyfwng 24 awr
Uned Gofal Critigol
Uned Argyfwng Triniaethau Dydd
Llawdriniaeth a meddygaeth argyfwng
Llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth
Gwasanaethau cleifion mewnol dan arweiniad ymgynghorydd ar gyfer menywod a phlant

Yn Ysbyty Brenhinol Amwythig:
Llawdriniaeth cleifion mewnol cynlluniedig
Llawdriniaethau achosion dydd
Endosgopi
Gwasanaethau cleifion mewnol y fron
Wardiau meddygol

Ar y ddau safle:
Canolfan Gofal Brys 24 awr
Gwasanaethau cleifion allanol i oedolion a phlant
Uned Achosion Dydd yr Arennau
Profion (diagnosteg)
Uned dan arweiniad bydwragedd
Uned Asesiad Dydd Cynenedigol
Gwasanaeth Asesu Beichiogrwydd Cynnar
Cleifion allanol mamolaeth a gwasanaeth sganio

**Mae geirfa o'r termau a ddefnyddir uchod i'w gweld ar dudalen 42 ac ar y wefan: www.nhsfuturefit.org*

Pa wasanaethau fyddai'n cael eu darparu yn y ddau ysbyty?

Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad hwn, fe fyddai cleifion yn parhau i allu cael eu hapwyntiadau, profion a sganiau i gleifion allanol yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, Telford. Fe fyddai'r ddau ysbyty hefyd yn darparu gwasanaethau gofal brys a'r mwyafrif o wasanaethau i fenywod a phlant.

Canolfannau Gofal Brys 24 awr

Fe fyddai yna Ganolfannau Gofal Brys newydd yn y ddau ysbyty, yn darparu gofal 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn ar gyfer clefydau ac anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am sylw brys. Fe fydden nhw'n cynnig mwy o wasanaethau na'n Canolfannau Gofal Brys presennol ac fe fydden nhw'n gweld amrywiaeth ehangach o gleifion. Fe fyddai gweithwyr iechyd proffesiynol uwch tra medrus, sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i ddarparu gofal brys i oedolion a phlant, yn eu staffio.

Fe fyddai'r canolfannau wedi'u trefnu fel y byddai cleifion yn derbyn gwasanaeth cyflymach, mwy uniongyrchol pan fydden nhw newydd gyrraedd. Y tu allan i'r drysau, fe fyddai yna ardaloedd i gerbydau ollwng cleifion a lleoedd ar gyfer ambiwlansys. Fe fyddai cleifion yn gallu cerdded i mewn (neu gario plentyn i mewn) ar unrhyw adeg i gael eu hasesu a'u trin yn gyflym ar gyfer:

- Amrywiaeth eang o fân anafiadau a chlefydau, fel mân anaf i'r llygad neu haint y frest
- Amrywiaeth o ddamweiniau a chlefydau eraill sydd o bosibl yn cael eu trin ar hyn o bryd mewn adran damweiniau ac achosion brys, er enghraifft braich sydd efallai wedi torri, mân losg neu sgald, briw sydd angen ei bwytho neu anaf o chwaraeon

Pe bai claf sy'n ddifrifol sâl yn mynd i Ganolfan Gofal Brys, neu pe bai claf yn dod yn ddifrifol wael yn y ganolfan, er bod hynny'n annhebygol o ddigwydd, fe fyddai staff clinigol medrus yn ei asesu'n gyflym ac yn gofalu amdano. Pe bai angen, fe fyddai'n cael ei drosglwyddo'n gyflym ac yn ddiogel i'r Adran Argyfwng ar y safle Gofal Argyfwng neu i Ganolfan Drawma y tu allan i'r sir, fel sy'n digwydd nawr.

Pa mor wahanol fyddai'r Canolfannau Gofal Brys newydd?

- Trwy agor 24 awr y dydd, fe fyddai'r canolfannau newydd yn gallu trin y mwyafrif o gleifion sydd ar hyn o bryd yn mynychu un o'n hadrannau damweiniau ac achosion brys presennol
- Yn y dyfodol, fe fyddai modd trin amrywiaeth o ddamweiniau a chlefydau sydd o bosibl yn cael eu trin mewn adran damweiniau ac achosion brys ar hyn o bryd. Er enghraifft braich sydd efallai wedi torri, mân losg neu sgald neu friw sydd angen ei bwytho
- Fe fyddai ambiwlansys sy'n ymateb i alwadau 999 yn mynd â chleifion i'w Canolfan Gofal Brys 24 awr agosaf os yw'r parafeddygon o'r farn mai dyma fyddai'r lle iawn i'w trin
- Fe fyddai yna well cyfleusterau i blant, gan gynnwys ardal aros yn benodol ar gyfer plant ac ystafelloedd trin sydd ar wahân i ardaloedd oedolion
- Fe fyddai gan y ddwy Ganolfan Gofal Brys ystafelloedd asesu iechyd meddwl i'w defnyddio, a thîm cyswllt seiciatrig 24 awr y dydd, bob dydd
- Fe fyddai cleifion yn cael eu gweld yn gyflymach gan staff sydd â'r wybodaeth a'r profiad i drin eu clefyd neu eu hanaf.

Fe fyddai bron 8 o bob 10 (80%) o gleifion yn parhau i fynd i'r un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr ar gyfer gofal argyfwng a brys

Sut mae hyn yn cael ei gyfrifo?

Mae'r niferoedd hyn wedi'u seilio ar y ffaith bod tua hanner y bobl sy'n mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys ar hyn o bryd yn mynd i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol a bod yr hanner arall yn mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig.

Rydyn ni'n gwybod nad oes angen gofal argyfwng mewn gwirionedd ar ryw chwech o bob 10 o bobl sy'n mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. Gofal brys sydd ei angen arnyn nhw. Yn y dyfodol, fe fyddai'r bobl hyn yn cael eu trin yn un o'n canolfannau gofal brys 24 awr naill ai yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol neu yn Ysbyty Brenhinol Amwythig. Mewn geiriau eraill, fe fydden nhw'n mynd i'r un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr am eu gofal brys.

Mae angen gofal argyfwng ar ryw bedwar o bob 10 o bobl sy'n mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys, gan fod ganddyn nhw glefyd neu anaf sy'n bygwth colli eu bywyd neu aelod o'u corff. Yn y dyfodol, fe fyddai angen gweld y bobl hyn i gyd ar ein safle Gofal Argyfwng. I ryw hanner y bobl hyn (sef dau o bob 10 o bobl), fe fyddan nhw'n mynd i'r un ysbyty am ofal argyfwng ag y maen nhw'n mynd iddo nawr. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n bosibl y bydd yn rhaid i'r hanner arall (sef dau o bob 10 o bobl) deithio'n bellach nag y maen nhw'n teithio nawr am ofal argyfwng.

Gwasanaethau menywod a phlant

Fe fyddai'r mwyafrif o fenywod a phlant dal yn derbyn gofal a thriniaeth yn yr un lle ag y maen nhw'n ei dderbyn nawr. Fe fyddai'r gwasanaethau menywod a phlant a ganlyn ar gael ar y ddau safle:

- Uned dan arweiniad bydwragedd, yn cynnwys genedigaethau risg isel a gofal ôl-enedigol
- Cleifion allanol mamolaeth, yn cynnwys apwyntiadau cynenedigol a sganio
- Apwyntiadau cleifion allanol gynaecolegol
- Gwasanaeth Asesu Beichiogrwydd Cynnar
- Asesiad Dydd Cynenedigol
- Apwyntiadau cleifion allanol sy'n blant
- Apwyntiadau cleifion allanol newydd-anedig.

Gwasanaethau cleifion allanol

Mae mwyafrif ein cleifion yn dod i mewn i'n hysbytai i weld eu meddyg, eu nyrs neu eu therapydd yn yr adran Cleifion Allanol. Dan y model rydyn ni'n ei gynnig, fe fyddai'r mwyafrif helaeth o gleifion yn parhau i gael eu hapwyntiadau cleifion allanol yn yr un ysbyty ag y maen nhw'n eu cael nawr.

Profion (diagnosteg)

Mae llawer o'n cleifion yn dod i mewn i'r ysbyty oherwydd bod eu meddyg teulu neu eu meddyg ysbyty wedi gwneud cais am brofion ar eu cyfer fel bod modd gwneud y penderfyniad iawn ynglŷn â pha driniaeth sydd ei hangen arnyn nhw. Gall y profion hyn fod yn brofion gwaed, yn brofion pelydr-x neu'n sganiau. Fe fyddai'r mwyafrif helaeth o'n cleifion yn parhau i fynd i'r ysbyty sydd agosaf at eu cartref i gael y profion hyn.

Safle Gofal Argyfwng: Pa wasanaethau fyddai'n cael eu darparu yno?

Fe fyddai cleifion ag anafiadau neu glefydau a allai fygwth colli bywyd neu aelod o'r corff, fel strôc, trawiad ar y galon neu golli gwaed yn ddifrifol, yn cael eu trin ar y safle Gofal Argyfwng. Fe fyddai parafeddygon yn mynd â nhw yno'n uniongyrchol mewn ambiwlans neu fe fydden nhw'n cael eu trosglwyddo ar unwaith o un o'n dwy Ganolfan Gofal Brys newydd.

Adran Argyfwng: Fe fyddai un Adran Argyfwng 24 awr newydd, wedi'i hadeiladu i'r diben, yn darparu triniaethau o ansawdd uchel, sy'n achub bywyd, i oedolion a phlant.

Uned Gofal Critigol: Uned o'r radd flaenaf i gleifion sy'n ddifrifol wael y mae angen gofal ar y lefel uchaf arnyn nhw, fel triniaeth cynnal bywyd.

Uned Argyfwng Triniaethau Dydd: Fe fyddai uned fawr yn cael ei chreu ar gyfer cleifion y mae angen gofal argyfwng arnyn nhw ar yr un diwrnod, lle mae modd eu hasesu, eu diagnosio a'u trin fel eu bod nhw'n gallu mynd adref yr un diwrnod.

Llawdriniaeth argyfwng: Fe fyddai'r holl gleifion y mae angen llawdriniaeth arnyn nhw mewn argyfwng yn cael eu trin ar y safle Gofal Argyfwng lle byddai tîm llawfeddygol llawn ar gael 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Meddygaeth argyfwng: Fe fyddai gwelyau cleifion mewnol ar gael ar gyfer cleifion ag anghenion iechyd arbenigol y mae angen iddyn nhw aros yn yr ysbyty dros nos. Mae hyn yn cynnwys cardioleg, strôc*, meddygaeth anadlu a meddygaeth acíwt.

Llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth: Mae'n bosibl y bydd angen i rai cleifion gael eu llawdriniaeth gynlluniedig ar y safle Gofal Argyfwng. Fe allai hyn fod oherwydd bod y llawdriniaeth yn gymhleth neu oherwydd bod ganddyn nhw gyflwr a allai alw am gymorth y tîm gofal critigol.

Gwasanaethau cleifion mewnol dan arweiniad ymgynghorydd ar gyfer menywod a phlant:

Fe fyddai'r holl wasanaethau cleifion mewnol dan arweiniad ymgynghorydd ar gyfer menywod a phlant yn digwydd ar y safle Gofal Argyfwng. Mae hyn yn cynnwys:

- **Gwasanaethau mamolaeth a newydd-anedig dan arweiniad ymgynghorydd:** Fe fyddai cyfleusterau cleifion mewnol yn cael eu darparu ar gyfer menywod beichiog y mae angen gofal dan arweiniad ymgynghorydd arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys wardiau cynenedigol ac ôl-enedigol, ystafelloedd esgor ac uned gofal dwys newydd-anedig.
- **Gwasanaethau cleifion mewnol i blant:** Fe fyddai gwasanaethau cleifion mewnol i blant (os oes yn rhaid i blentyn aros yn yr ysbyty dros nos) yn digwydd yma. Mae'r ward plant yn gofalu am blant â chlefydau difrifol a phroblemau cymhleth y mae angen gofal meddygon a nyrsys arbenigol arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys llawdriniaeth plant a chanser a haematoleg plant.
- **Uned Asesu Plant:** Fe fyddai plant y mae angen i'r tîm plant arbenigol eu hasesu'n cael eu gweld yma.

Ar y ddau safle:

Canolfan Gofal Brys 24 awr: Fe fyddai canolfan newydd yn cael ei darparu ar y ddau safle ysbyty ar gyfer cleifion sydd ag anaf neu glefyd nad yw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am ofal brys.

Adran Cleifion Allanol: Fe fyddai apwyntiadau cleifion allanol ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys Clinig Toresgyrn, yn digwydd ar y ddau safle ysbyty.

Profion (diagnosteg): Fe fyddai profion fel rhai pelydr-x, uwchsain, CT a sganio MRI yn digwydd ar y ddau safle ysbyty.

Uned Achosion Dydd yr Arennau: Fe fyddai triniaeth dialysis arennol ar gael i gleifion ar y ddau safle ysbyty.

* Gwelwch dudalen 23 i gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau strôc

Sut fyddech chi'n cael eich trin mewn argyfwng?

Fe fyddai'r newidiadau rydyn ni'n eu cynnig i'n ffordd o ddarparu gofal argyfwng yn golygu y byddai cleifion o ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru'n cael eu trin mewn un Adran Argyfwng benodol, wedi'i hadeiladu i'r pwrpas, os yw'r argyfwng yn bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff. Yma, fe fyddech chi'n derbyn gofal meddygon a nyrsys argyfwng arbenigol 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Fe fyddai hyn yn arwain at gael diagnosis yn gyflymach, at gael eich trin yn gynt ac at ddeilliannau clinigol gwell.

Fel sy'n digwydd nawr yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys presennol, mewn argyfwng, fe fyddech chi naill ai'n cyrraedd mewn ambiwlans neu'n cael eich cludo i'r Adran Argyfwng ar y safle Gofal Argyfwng. Fe fyddai'r cyfleusterau hyn wedi'u cynllunio i gefnogi ein meddygon, ein nyrsys a'n staff gofal iechyd eraill i ddarparu'r gofal clinigol gorau posibl. Cyn gynted ag y byddech chi'n cyrraedd, byddai ein tîm argyfwng clinigol yn eich asesu, ac yn penderfynu ar y lle gorau i ofalu amdanoch chi:

- Os y byddai'r meddygon yn penderfynu nad oes angen gofal argyfwng arnoch chi, yna fe fyddech chi'n cael eich anfon i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr a fyddai ochr yn ochr â'r Adran Argyfwng.
- Lle byddai angen, fe fyddech chi'n derbyn gofal a thriniaeth argyfwng yn yr Adran Argyfwng yn ddi-oed.
- Fel sy'n digwydd nawr, os y byddech chi'n dioddef trawma mawr, fe fyddech chi o bosibl yn cael eich cludo i'r Adran Argyfwng i dderbyn triniaeth achub bywyd ar unwaith cyn cael eich trosglwyddo i Ganolfan Drawma.

Pe bai angen ichi aros yn yr ysbyty dros nos, fe fyddai hyn ar y safle Gofal Argyfwng. Ar ôl eich gofal argyfwng, ein nod fyddai ichi allu dychwelyd adref cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar eich cyflwr, fe allai'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch chi benderfynu bod angen parhau â'ch gofal yn yr ysbyty. Fe fydd y lle y bydd y gofal hwn yn parhau yn dibynnu ar eich cyflwr a'r gwasanaethau gofal sydd eu hangen arnoch chi. I lawer o gleifion, fe fyddai hyn yn golygu eu trosglwyddo i'r safle Gofal Cynlluniedig. Lle bo'n bosibl, os yw claf yn byw yn agosach at y safle Gofal Argyfwng, yna ein nod fyddai iddo aros yno i gael ei ofal parhaus.

Fe fyddai cael safle Gofal Argyfwng penodol yn golygu:

- Y byddai meddygon a nyrsys arbenigol amrywiol o fewn cyrraedd llwyr ar unwaith i gleifion, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos
- Y bydden ni'n parhau i fod yn rhan o rwydwaith ar gyfer gofal trawma gyda chysylltiadau â'r canolfannau trawma yn Stoke-on-Trent a Birmingham
- Y byddai gennym ni Uned Argyfwng Triniaethau Dydd lle y byddai modd asesu cleifion y mae angen gofal argyfwng arnyn nhw, arsylwi arnyn nhw, eu trin a'u rhyddhau ar yr un diwrnod, gan osgoi'r angen i aros yn yr ysbyty dros nos
- Y byddai ein hymgynghorwyr a'n timau arbenigol sydd eu hangen mewn argyfwng i gyd ar un safle, yn cydweithio ac yn dysgu'r naill oddi wrth y llall bob dydd.

Gwasanaethau menywod a phlant:

Fe fyddai'r mwyafrif o fenywod a phlant yn parhau i allu mynd i'w hysbyty lleol i gael y gofal a'r driniaeth sydd ei angen arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys:

- **Uned dan arweiniad bydwragedd:** Fe fyddai gwasanaethau dan arweiniad bydwragedd ar gyfer menywod beichiog a'u babanod yn cael eu darparu ar y ddau safle. Mae hyn yn cynnwys genedigaethau risg isel a gofal ôl-enedigol
- **Cleifion allanol mamolaeth a gwasanaeth sganio:** Fe fyddai menywod beichiog yn gallu cael apwyntiadau cleifion allanol a sganiau ar y ddau safle
- **Gwasanaeth Asesu Beichiogrwydd Cynnar:** Fe fyddai gofal am fenywod â chymhlethdodau'n gynnar yn eu beichiogrwydd, hyd at 16 wythnos, yn cael ei ddarparu ar y ddau safle
- **Gwasanaethau menywod:** Fe fyddai apwyntiadau cleifion allanol a llawdriniaethau achosion dydd gynaecolegol yn digwydd yn y ddau ysbyty
- **Cleifion allanol sy'n blant:** Fe fyddai apwyntiadau cleifion allanol sy'n blant yn digwydd ar y ddau safle ysbyty.

Safle Gofal Cynlluniedig:
Beth fyddai'n cael ei ddarparu yno?

Fe fyddai'r mwyafrif o oedolion sy'n cael llawdriniaeth gynlluniedig fel claf achos dydd neu fel claf mewnol yn mynd i'r safle Gofal Cynlluniedig.

Llawdriniaeth cleifion mewnol cynlluniedig: Fe fyddai'r mwyafrif o lawdriniaethau cynlluniedig lle mae'n rhaid i gleifion sy'n oedolion aros yn yr ysbyty dros nos yn digwydd yma, er enghraifft llawdriniaeth ar y glun neu'r pen-glin. (Fe fyddai llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth yn digwydd ar y safle Gofal Argyfwng).

Llawdriniaethau achosion dydd: Fe fyddai cleifion y mae angen llawdriniaeth arnyn nhw ond nad oes angen iddyn nhw aros yn yr ysbyty dros nos yn derbyn eu gofal mewn Uned Achosion Dydd ar y safle Gofal Cynlluniedig.

Endosgopi: Fe fyddai cyfleuster endosgopi newydd yn cael ei ddarparu ar gyfer cleifion achosion dydd y mae angen y weithdrefn hon arnyn nhw.

Wardiau meddygol: Fe fyddai gwelyau meddygol yn cael eu darparu i gleifion y mae angen parhau â'u gofal mewn ysbyty ar ôl eu triniaeth ar y safle Gofal Argyfwng, lle bo hynny'n bosibl.

Gwasanaethau cleifion mewnol y fron: Fe fyddai tîm penodol yn darparu profion, triniaeth a gofal mewn cyfleuster arbenigol. Fe fyddai apwyntiadau a sganiau cleifion allanol yn parhau i ddigwydd yn y ddau ysbyty.

Ar y ddau safle:

Canolfan Gofal Brys 24 awr: Fe fyddai canolfan newydd yn cael ei darparu ar y ddau safle ysbyty ar gyfer cleifion sydd ag anaf neu glefyd nad yw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am ofal brys.

Adran Cleifion Allanol: Fe fyddai apwyntiadau cleifion allanol ar gyfer oedolion a phlant, gan gynnwys Clinig Toresgyrn, yn digwydd ar y ddau safle ysbyty.

Profion (diagnosteg): Fe fyddai profion fel rhai pelydr-x, uwchsain, CT a sganio MRI yn digwydd ar y ddau safle.

Uned Achosion Dydd yr Arennau: Fe fyddai triniaeth dialysis arennol ar gael i gleifion ar y ddau safle.

Gwasanaethau Menywod a Phlant:

Fe fyddai'r mwyafrif o fenywod a phlant yn parhau i allu mynd i'w hysbyty lleol i gael y gofal a'r driniaeth sydd ei angen arnyn nhw. Mae hyn yn cynnwys:

- **Uned dan arweiniad bydwragedd:** Fe fyddai gwasanaethau dan arweiniad bydwragedd ar gyfer menywod beichiog a'u babanod yn cael eu darparu ar y ddau safle. Mae hyn yn cynnwys genedigaethau risg isel a gofal ôl-enedigol
- **Cleifion allanol mamolaeth a gwasanaeth sganio:** Fe fyddai menywod beichiog yn gallu cael apwyntiadau cleifion allanol a sganiau ar y ddau safle
- **Gwasanaeth Asesu Beichiogrwydd Cynnar:** Fe fyddai gofal am fenywod â chymhlethdodau'n gynnar yn eu beichiogrwydd, hyd at 16 wythnos, yn cael ei ddarparu ar y ddau safle
- **Gwasanaethau menywod:** Fe fyddai apwyntiadau cleifion allanol a llawdriniaethau achosion dydd gynaecolegol yn digwydd yn y ddau ysbyty
- **Cleifion allanol sy'n blant:** Fe fyddai apwyntiadau cleifion allanol sy'n blant yn digwydd ar y ddau safle ysbyty.



Fe fyddai cael safle Gofal Cynlluniedig penodol yn golygu:

- Y byddai hi'n annhebygol iawn y byddai llawdriniaeth yn cael ei chanslo oherwydd bod rhywun arall wedi'i dderbyn mewn argyfwng
- Y byddai mwyafrif y llawdriniaethau cynlluniedig yn digwydd ar un safle, ar wahân i gleifion argyfwng. Byddai hyn yn helpu i leihau'r risg o haint i gleifion
- Ar ôl llawdriniaeth claf, y byddai tîm arbenigol o weithwyr iechyd proffesiynol yn gofalu amdano mewn ward lawfeddygol benodol
- Y byddai meddygon a nyrsys sy'n darparu gofal cynlluniedig yn cael eu dwyn at ei gilydd mewn un lle, gan eu galluogi i ddysgu'r naill o'r llall a darparu gwasanaeth gwell.

Ble fuasech chi'n mynd pe bai angen llawdriniaeth arnoch chi?

Fe fyddai'r mwyafrif o gleifion yn cael eu llawdriniaeth gynlluniedig (naill ai fel achos dydd neu fel claf mewnol) ar y safle Gofal Cynlluniedig. Yma, fe fyddai timau llawfeddygol arbenigol yn gofalu amdanoch chi cyn, yn ystod ac ar ôl eich llawdriniaeth.

Gan na fyddai gofal argyfwng yn digwydd ar y safle Gofal Cynlluniedig, fe fyddai'n annhebygol iawn na fyddai gwely ar gael ac felly ni ddylai'ch llawdriniaeth gael ei chanslo. Fe fyddai hyn hefyd yn helpu i leihau'r risg o haint ichi.

Os y byddai'ch meddyg yn teimlo bod angen i'r tîm gofal critigol eich cefnogi ar ôl eich llawdriniaeth, yna fe fyddai'ch llawdriniaeth yn cael ei gwneud ar y safle Gofal Argyfwng. Gallai hyn fod oherwydd bod gennych chi gyflwr meddygol sydd eisoes yn bodoli, neu oherwydd bod angen llawdriniaeth gymhleth arnoch chi. Os byddai'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch chi'n penderfynu bod angen gofal ysbyty parhaus arnoch chi, yna mae'n bosibl y byddech chi'n cael eich trosglwyddo i'r safle Gofal Cynlluniedig ar gyfer gweddill eich amser yn yr ysbyty.

Beth fyddai'r newidiadau hyn yn ei olygu i chi a'ch teulu?

Mae'r tabl hwn yn esbonio lle y byddech chi'n mynd i dderbyn y gofal sydd ei angen arnoch chi mewn gwahanol sefyllfaoedd, dan Opsiwn 1 ac Opsiwn 2:

Sefyllfa	Ble alla' i fynd i gael y gofal a'r driniaeth sydd ei angen arna' i neu ar fy nheulu?			
	OPSIWN 1		OPSIWN 2	
	Amwythig ydy'r safle Gofal Argyfwng	Telford ydy'r safle Gofal Cynlluniedig	Telford ydy'r safle Gofal Argyfwng	Amwythig ydy'r safle Gofal Cynlluniedig
Mae fy mab 11 oed wedi cwympo oddi ar ei feic ac mae ei figwrn wedi chwyddo	✓	✓	✓	✓
Mae gan fy chwaer sy'n oedolyn apwyntiad claf allanol	✓	✓	✓	✓
Mae fy mhlentyn yn cael triniaeth cemotherapi	✓	✗	✓	✗
Mae angen i mi gael prawf pelydr-x	✓	✓	✓	✓
Mae'n rhaid i nain gael sgan	✓	✓	✓	✓
Mae gan fy ngŵr haint difrifol ar y frest ac mae angen iddo aros yn yr ysbyty dros nos	✓	✗	✓	✗
Mae angen i fy mam gael llawdriniaeth achos dydd	✗ (cyn belled nad ydy'n risg uchel)	✓	✗ (cyn belled nad ydy'n risg uchel)	✓
Dwi fel rheol yn ffit ac yn iach ac mae llawdriniaeth gyffredinol wedi'i threfnu ar fy nghyfer a fydd yn galw am aros yn yr ysbyty dros nos	✗	✓	✗	✓
Mae angen llawdriniaeth gynlluniedig ar fy nhad ond mae ganddo gyflwr meddygol cymhleth	✓	✗	✓	✗
Mae gan fy merch anaf i'w choes ac mae angen llawdriniaeth frys arni	✓	✗	✓	✗
Mae fy ngwraig yn mynd i gael babi dan arweiniad ymgynghorydd	✓	✗	✓	✗
Mae fy mrawd sy'n oedolyn wedi cael adwaith alergaidd difrifol ac mae angen triniaeth cynnal bywyd arno	✓	✗	✓	✗
Dydy fy mhlentyn ddim yn teimlo'n dda ac mae angen iddo aros yn yr ysbyty dros nos	✓	✗	✓	✗
Mae sgan wedi'i drefnu ar fy nghyfer gyda'm bydwraig	✓	✓	✓	✓
Mae fy nghymydog wedi bod mewn damwain car difrifol ac wedi cael anafiadau difrifol i'w ben a'i goesau	✗ Ei drosglwyddo i Ganolfan Drawma y tu allan i'r sir (fel sy'n digwydd nawr)	✗ Ei drosglwyddo i Ganolfan Drawma y tu allan i'r sir (fel sy'n digwydd nawr)	✗ Ei drosglwyddo i Ganolfan Drawma y tu allan i'r sir (fel sy'n digwydd nawr)	✗ Ei drosglwyddo i Ganolfan Drawma y tu allan i'r sir (fel sy'n digwydd nawr)

futurefit
Shaping healthcare together

NHS

Cael dweud eich dweud ynglŷn â gwella gwasanaethau ysbyty i bobl yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru

Mae Grwpiau Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn cynnig gwneud rhai newidiadau i wasanaethau ysbyty a ddarperir yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford.

Mae'ch barn chi'n bwysig i ni. A fyddech cystal â chwblhau a dychwelyd yr arolwg hwn i'r cyfeiriad RHADBOST ar dudalen gefn yr arolwg hwn. Os yw'n well gennych chi, gallwch chi lenwi'r fersiwn ar-lein o'r arolwg hwn ar ein gwefan www.nhsfuturefit.org

Mae'r arolwg hwn hefyd ar gael yn Saesneg, fel dogfen Word ac mewn fformat print bras. Mae'r fformatau gwahanol hyn ar gael yn www.nhsfuturefit.org neu gallwch chi ffonio 0300 3000 903 neu anfon e-bost i nhsfuturefit@nhs.net Hefyd, mae croeso ichi gysylltu â ni os ydych chi eisiau'r arolwg hwn mewn iaith neu fformat gwahanol neu os oes angen help arnoch chi i'w lenwi. Os ydych chi'n teimlo bod angen mwy o le arnoch chi i fynegi'ch barn ar unrhyw rai o'r cwestiynau, yna defnyddiwch ddarn o bapur ar wahân.

Datganiad Diogelu Data: Bydd cwmni o'r enw Participate Ltd yn prosesu'r holl wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi yn yr arolwg hwn ar ran Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin. Mae'r arolwg hwn yn rhan o'n hymgynghoriad ar wella ein gwasanaethau ysbyty. Caiff y data eu defnyddio at y diben hwn yn unig. Caiff yr holl ddata eu cadw'n ddiogel a chaiff y wybodaeth y byddwch chi'n ei darparu ei thrin yn gyfrinachol. Rydyn ni'n gofyn ichi beidio â rhoi unrhyw ddata personol ychwanegol yn yr arolwg hwn.

<u>Y model rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer gofal ysbyty</u>

Ein cynnig ydy i un ysbyty ddod yn safle Gofal Argyfwng ac i'r ysbyty arall ddod yn safle Gofal Cynlluniedig. Fe fyddai gan y ddau ysbyty Ganolfan Gofal Brys a fyddai ar agor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Yma, fe fyddech chi'n derbyn gofal ar gyfer clefydau ac anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am sylw brys. Yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio ydy i Ysbyty Brenhinol Amwythig ddod yn safle Gofal Argyfwng ac i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ddod yn safle Gofal Cynlluniedig.

ADRAN 1: Eich barn chi ynglŷn â'r model rydyn ni'n ei gynnig ar gyfer gofal ysbyty

C1. Defnyddiwch y blwch isod i ddisgrifio unrhyw effaith rydych chi'n meddwl y byddai'r model rydyn ni'n ei gynnig yn ei chael arnoch chi a/neu ar eich teulu.

ADRAN 2: Eich barn ar Opsiwn 1

<u>Opsiwn 1:</u> Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig ydy'r safle Gofal Argyfwng ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford ydy'r safle Gofal Cynlluniedig. Opsiwn 1 ydy'r opsiwn y mae Grwpiau Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn ei ffafrio

C2a. I ba raddau ydych chi'n cytuno y byddai Opsiwn I yn diwallu'ch anghenion chi neu anghenion pobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw, neu anghenion y grwp neu'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Yn cytuno'n gryf	Yn cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Yn anghytuno	Yn anghytuno'n gryf	Dydw i ddim yn gwybod
❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5	❑ 6

C2b. A fyddech cystal ag esbonio'r rhesymau am eich ateb i C2a.

ADRAN 3: Eich barn ar Opsiwn 2

<u>Opsiwn 2:</u> Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford ydy'r safle Gofal Argyfwng ac Ysbyty Brenhinol Amwythig ydy'r safle Gofal Cynlluniedig. Opsiwn 2 ydy'r opsiwn dydy Grwpiau Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Telford & Wrekin ddim yn ei ffafrio

C3a. I ba raddau ydych chi'n cytuno y byddai Opsiwn 2 yn diwallu'ch anghenion chi neu anghenion pobl rydych chi'n gofalu amdanyn nhw, neu anghenion y grwp neu'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Yn cytuno'n gryf	Yn cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Yn anghytuno	Yn anghytuno'n gryf	Dydw i ddim yn gwybod
❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5	❑ 6

C3b. A fyddech cystal ag esbonio'r rhesymau am eich ateb i C3a.

ADRAN 4: Unrhyw sylwadau eraill

C4a. A allwch chi feddwl am unrhyw ffactorau eraill dydyn ni heb eu cymryd i ystyriaeth ond sy'n bwysig i chi? Os felly, manylwch arnyn nhw yma.

C4b. Defnyddiwch y blwch isod i roi unrhyw sylwadau eraill am y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig i'n gwasanaethau ysbyty.

ADRAN 5: Amdanoch chi

A fyddech cystal â llenwi'r manylion a ganlyn amdanoch chi'ch hun. Rydyn ni'n gofyn am y wybodaeth hon i wneud yn siŵr ein bod ni wedi casglu adborth amrywiol ei ystod.

C5a. A fyddech cystal â dweud p'un a ydych chi'n ymateb fel aelod o'r cyhoedd neu ar ran sefydliad (preifat neu wirfoddol/elusennol). Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Fel aelod o'r cyhoedd	Ar ran sefydliad (preifat neu wirfoddol/elusennol)
❑ 1	❑ 2

C5b. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, nodwch enw'ch sefydliad.

Sylwch – os ydych chi'n ymateb fel sefydliad ac eisiau ymateb fel unigolyn hefyd (neu'n unigolyn sydd eisiau ymateb fel sefydliad) yna gallwch chi gwblhau ail arolwg. Cysylltwch â ni i ofyn am gopïau ychwanegol neu cwblhewch yr arolwg ar-lein yn www.nhsfuturefit.org

C5c. A fyddech cystal â nodi hanner cyntaf eich cod post, e.e. TF7, SY16 neu SY1. Os ydych chi'n ymateb fel aelod o'r cyhoedd, rhowch god post eich cartref. Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad, rhowch god post eich swyddfa. Fe fydd y wybodaeth hon yn helpu i sicrhau ein bod ni wedi cael barn ystod eang o bobl o ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru.

	Ddim am ddweud	❑ 1

ADRAN 6: Mwy o wybodaeth amdanoch chi

Nid oes yn rhaid ichi ateb y cwestiynau a ganlyn, ond os byddwch chi'n eu hateb fe fyddech chi'n ein helpu ni i wneud yn siŵr ein bod ni'n casglu barn cynifer o bobl wahanol â phosibl.

C6.1. Pa ryw ydych chi? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Gwryw	Benyw	Rhyngrywiol	Arall	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5

C6.2. Ailebennu rhywedd: Ydych chi wedi mynd trwy rhan o broses neu ydych chi'n bwriadu (gan gynnwys meddwl a gwneud rhywbeth) i ddod â golwg eich corff a/neu'ch rôl rywedd yn fwy unol â'ch hunaniaeth rywedd?
(Gallai hyn gynnwys newid eich enw, eich golwg, cymryd hormonau neu gael llawdriniaeth i gadarnhau'ch rhywedd).

Ydw	Nac ydw	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3

C6.3. Pa mor hen ydych chi? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

16-26	27-37	38-47	48-58	59-69	70+	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5	❑ 6	❑ 7

C6.4. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch ethnigrwydd orau? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Gwyn	Gwyn Prydeinig	Cymreig	Gwyddelig	Ewropeaidd Arall (nodwch beth)	Arall (nodwch beth)
	❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig	Indiaidd	Pacistanaidd	Bangladeshi	Arall (nodwch beth)
	❑ 6	❑ 7	❑ 8	❑ 9

Du	Caribïaidd	Affricanaidd	Prydeinig	Arall (nodwch beth)
	❑ 10	❑ 11	❑ 12	❑ 13

Ethnig Cymysg/ Lluosog	Caribïaidd Gwyn a Du	Affricanaidd Gwyn a Du	Gwyn ac Asiaidd	Arabaidd	Arall (nodwch beth)
	❑ 14	❑ 15	❑ 16	❑ 17	❑ 18

Tsieineaidd neu grwpiau ethnig eraill	Tsieineaidd	Ffilipino	Fietnamaidd	Thai	Arall (nodwch beth)
	❑ 19	❑ 20	❑ 21	❑ 22	❑ 23

Sipsiwn a Theithwyr	Gwyddelig	Romani	Arall (nodwch beth)
	❑ 24	❑ 25	❑ 26

C6.5. Beth ydy'ch crefydd neu'ch credo? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Hindwaeth	Cristnogaeth	Iddewiaeth	Bwdïaeth	Islam	Siciaeth	Arall	Ddim am ddweud	Dim crefydd
❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5	❑ 6	❑ 7	❑ 8	❑ 9

C6.6. Sut fyddech chi'n diffinio'ch cyfeiriadedd rhywiol? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Heterorywiol	Hoyw	Lesbiaidd	Deurywiol	Arall	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3	❑ 4	❑ 5	❑ 6

C6.7. Ydych chi'n rhiant plentyn neu blant dan 16 oed? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Ydw	Nac ydw	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3

C6.8. Ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd? Ticiwch ☑ un blwch yn unig.

Ydw	Nac ydw	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3

C6.9. Os ydych chi wedi ateb 'ydw' i gwestiwn 6.8, nodwch beth ydy'r anabledd.

C6.10. Ydych chi'n ofalwr i unrhyw un? Ticiwch ☑ un blwch yn unig. Yn ôl diffiniad yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr 'unrhyw un sy'n gofalu heb dâl am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, yn methu ymdopi heb eu cymorth' ydy gofalwr.

Ydw	Nac ydw	Ddim am ddweud
❑ 1	❑ 2	❑ 3

Pan fyddwch chi wedi cwblhau'r arolwg hwn, a fyddech cystal â'i blygu a'i roi mewn amlen a nodi'r cyfeiriad a ganlyn arni: FREEPOST NHS FF CONSULTATION. Ni fydd angen rhoi stamp ar yr amlen. Rhaid derbyn pob arolwg erbyn 12am (canol nos) ar 4 Medi 2018.

Diolch am roi o'ch amser. Fe fydd arbenigwyr ymgynghori, Participate Ltd, yn dadansoddi'ch sylwadau ac yna'n cynhyrchu adroddiad. Fe fydd yr adroddiad hwn yn darparu sail ar gyfer proses benderfynu Grwpiau Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Telford & Wrekin ynglŷn â dyfodol gwasanaethau ysbyty yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin.

futurefit
Shaping healthcare together

Rhaglen Future Fit GIG dan arweiniad:

Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig a Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Telford & Wrekin

www.nhsfuturefit.org @NHSFutureFit facebook.com/nhsff

Pa effaith y mae'r newidiadau hyn yn ei chael ar ddewis cleifion?

- Fe fyddai cleifion sy'n derbyn eu gofal ysbyty yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn parhau i wneud hynny dan y model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig
- Fe fyddai llawer o wasanaethau'n aros ar y ddau safle ysbyty, er enghraifft gwasanaethau gofal brys, gwasanaethau cleifion allanol i oedolion a phlant, profion, unedau dan arweiniad bydwragedd, gofal cynenedigol ac ôl-enedigol a rhai gweithdrefnau gynaecolegol
- Mae rhai gwasanaethau ar gael ar un o'r ddau safle ysbyty'n unig ar hyn o bryd, er enghraifft llawdriniaeth acíwt, triniaeth strôc acíwt a gwasanaeth cleifion mewnol sy'n blant
- Mae rhai cleifion yn teithio y tu allan i'r sir i gael gofal arbenigol ar hyn o bryd, er enghraifft gofal trawma mawr a rhywfaint o ofal canser
- Fe fyddai bron 80% o gleifion yn parhau i fynd i'r un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr ar gyfer gofal argyfwng a brys
- Fe fydd y strategaethau gofal y tu allan i'r ysbyty sy'n cael eu datblygu'n cynnig gofal i gleifion yn agosach at eu cartref ac yn cynnig mwy o ddewis
- Fe fyddai unrhyw newid i wasanaethau ysbyty'n golygu y byddai'n rhaid i rai cleifion deithio'n bellach. Fodd bynnag, rhaid rhoi blaenoriaeth i ddarparu gwasanaethau ysbyty diogel, cynaliadwy ac o ansawdd uchel.

Pa effaith y mae'r newidiadau hyn yn ei chael ar wasanaethau strôc?

Cyn haf 2013, roedd gwasanaethau strôc yn cael eu darparu yn ein dau ysbyty. Mewn ymateb i heriau staffio yn ystod haf 2013, fe gymerodd Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford gamau'n ddi-oed, gyda chefnogaeth y ddau Grŵp Comisiynu Clinigol, i sicrhau gwasanaethau strôc diogel, ag urddas i'n cleifion a'n cymunedau. Roedd hyn yn cynnwys y penderfyniad i ddod â gwasanaethau strôc hyper-acíwt ac acíwt at ei gilydd i greu un gwasanaeth strôc yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford. Yma, mae timau meddygol arbenigol strôc, sydd â thriniaethau, sganiau a phrofion arbenigol wrth law, yn asesu cleifion ar unwaith. Dewiswyd Telford fel y lleoliad ar gyfer gwasanaeth strôc ar un safle oherwydd ei fod yn cynnig y cyfleusterau a'r model staffio gorau ar y pryd. Yn gynnar yn 2014, fe gymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Grwpiau Comisiynu Clinigol y dylid parhau i ddarparu'r gwasanaeth strôc ar un safle yn Telford hyd nes y cytunir ar y cynlluniau tymor hir trwy'r rhaglen Future Fit.

Mae creu un uned strôc yn Telford wedi golygu bod yn rhaid i rai cleifion deithio'n bellach mewn ambiwlans, er enghraifft o ledled Sir Amwythig a chanolbarth Cymru. Fodd bynnag, mae ymchwil gan y Gymdeithas Strôc wedi darganfod bod cleifion strôc yn fwy tebygol o gael canlyniad gwell os ydyn nhw'n derbyn gofal a thriniaeth mewn uned sy'n benodol ar gyfer strôc hyper-acíwt. Er ein bod ni'n gwybod bod dal angen inni wella, rydyn ni'n gallu darparu gwasanaeth mwy diogel ar un safle ysbyty nag y gallen ni pe bai gofal strôc acíwt wedi'i rannu dros ddau safle. Y weledigaeth tymor hir gytunedig ar gyfer gwasanaethau strôc yw felly parhau i gael un safle ar gyfer gwasanaethau strôc hyper-acíwt ac acíwt.



Mae strôc yn argyfwng sy'n bygwth colli bywyd ac felly mae'n hanfodol bod ein huned strôc ochr yn ochr â'r Adran Argyfwng. Felly mae'n rhaid iddi fod ar y safle Gofal Argyfwng. Fe fyddai Opsiwn 1 yn golygu y byddai'r gwasanaeth hwn yn symud o Telford i Amwythig, tra byddai Opsiwn 2 yn golygu y byddai'r gwasanaeth yn aros yn Telford.

Ar ôl cael strôc, mae angen gwasanaeth ailsefydlu parhaus ar rai cleifion. Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad hwn, fe fyddai gwasanaethau ailsefydlu ar ôl strôc yn parhau i gael eu darparu yn y ddau ysbyty ac yn y cartref, lle bynnag bo'n bosibl. I'r cleifion hynny y mae angen eu hailsefydlu yn yr ysbyty, ein nod fyddai i hyn ddigwydd yn yr ysbyty sydd agosaf at lle maen nhw'n byw.

Yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio

Cael y safle Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig a'r safle Gofal Cynlluniedig yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ydy'r opsiwn y mae'r Grwpiau Comisiynu Clinigol yn ei ffafrio.

Fe fyddai'r ddau opsiwn yn gwella'r gofal a dderbynnir, diogelwch cleifion a'r profiad o'i gymharu â'r hyn sydd gennym ni nawr. A byddai'r ddau opsiwn hefyd yn golygu y byddai amseroedd teithio hirach yn effeithio ar rai pobl ar gyfer eu gofal cynlluniedig neu eu gofal argyfwng. Mae dewis yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio wedi bod yn benderfyniad anodd iawn. Gwnaed y penderfyniad yn sgil llawer o drafod ac ystyried canlyniadau'r dadansoddiad ariannol ac anariannol yn ofalus, ynghyd â darganfyddiadau nifer o adroddiadau annibynnol. Gallwch chi ddarllen mwy am ganlyniadau ein dadansoddiad ariannol ac anariannol ar dudalen 34.

Dalgylch ein hysbytai

Mae'r map hwn yn dangos lle mae ein dau ysbyty ar hyn o bryd a daearyddiaeth y boblogaeth rydyn ni'n ei gwasanaethu.



Pam mai Opsiwn 1 ydy'r opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio?

Ceir esboniad o'r pedwar prif reswm dros ffafrio Opsiwn 1 yma:



Byddai cael y safle Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig yn golygu y gallai barhau i fod yn Uned Drawma


Wrth benderfynu ar yr opsiwn y bydden ni'n ei ffafrio, roedd yn rhaid inni ystyried beth y byddai hyn yn ei olygu i gleifion sy'n dioddef trawma mawr ac y mae angen gofal argyfwng sy'n achub bywyd arnyn nhw. Yn ôl y diffiniad o drawma mawr, anafiadau difrifol ydyw sy'n newid bywyd neu a allai arwain at farwolaeth neu anabledd difrifol. Mae hyn yn cynnwys anafiadau difrifol i'r pen, briwiau difrifol neu dorri nifer o esgyrn. Yn y sefyllfaoedd hyn sy'n bygwth colli bywyd, mae parafeddygon yn asesu pa mor ddifrifol ydy cyflwr claf yn gyflym ac yn penderfynu ar y lle gorau iddo dderbyn gofal argyfwng.

Ar hyn o bryd, os ydy claf yn dioddef trawma mawr yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin neu ganolbarth Cymru, mae'r cleifion â'r anafiadau mwyaf difrifol yn cael eu cludo'n syth i Ganolfan Trawma Mawr y tu allan i'r sir, fel Ysbytai Prifysgol Gogledd Canolbarth Lloegr yn Stoke-on-Trent, Ysbyty Plant Birmingham neu Ysbyty'r Frenhines Elizabeth yn Birmingham. Mae nifer bach o gleifion yn cael eu cludo i Uned Drawma i gael eu sefydlogi cyn eu trosglwyddo i Ganolfan Trawma Mawr. Mae Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Uned Drawma. Mae yna Unedau Trawma eraill gerllaw yn Wolverhampton, Wrecsam, Caerwrangon a Henffordd. Ar ôl asesu rhai cleifion, does dim angen eu trosglwyddo i Ganolfan Trawma Mawr a gallan nhw barhau i dderbyn triniaeth yn ddiogel mewn Uned Drawma.

Fel Grwpiau Comisiynu Clinigol, ein cyfrifoldeb ni ydy comisiynu (prynu) y gwasanaethau argyfwng a'r gwasanaethau Uned Drawma priodol ar gyfer ein cleifion. Cyfrifoldeb GIG Lloegr ydy comisiynu gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn Canolfannau Trawma Mawr.

Rhwydweithiau Trawma sy'n gosod y safonau ansawdd a'r gofynion i wasanaeth weithredu fel Uned Drawma neu Ganolfan Trawma Mawr. Mae Rhwydwaith Trawma Gogledd Orllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd Cymru wedi rhoi gwybod eu bod nhw o blaid cael Uned Drawma yn Ysbyty Brenhinol Amwythig. Mae hyn oherwydd ei leoliad a'r ffaith ei fod o fewn cyrraedd i gleifion yng ngorllewin y rhanbarth, sef trigolion canolbarth Cymru'n bennaf.

Maen nhw hefyd wedi dweud pe bai'r Uned Drawma yn Telford, fe fyddai risg gynyddol i grwpiau o gleifion o Bowys gan y byddai'r amser i'w trosglwyddo i Uned Drawma'n sylweddol hirach. Fodd bynnag, gall hyn hefyd effeithio ar rai cleifion sy'n byw mewn rhai rhannau gwledig o Sir Amwythig. Mae rhagor o wybodaeth am y pethau y gallen ni eu hystyried i leihau'r risg i rai pobl i'w gweld ar dudalen 31.




Fe fyddai cael y safle Gofal Argyfwng yn Amwythig yn golygu y byddai'n rhaid i lai o bobl deithio'n bellach i gael gofal argyfwng.



Rydyn ni'n cydnabod y byddai unrhyw opsiwn y byddwn ni'n ei ddewis yn golygu y byddai'n rhaid i rai pobl deithio'n bellach i gael eu gofal argyfwng neu eu gofal cynlluniedig. Fodd bynnag, mae amser yn hollbwysig ar gyfer rhai siwrneiau. Y diffiniad o siwrneiau lle mae amser yn hollbwysig ydy pan ystyrir bod cyflwr claf yn bygwth colli bywyd ac mae angen gofal argyfwng arno. Mae gwybodaeth oddi wrth Wasanaeth Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Gorllewin Canolbarth Lloegr am y siwrneiau lle mae amser yn hollbwysig a ragwelir ar gyfer nawr a'r dyfodol hefyd wedi ein helpu ni i ddewis yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio.

Fe fyddai'r opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio, sef cael y safle Gofal Argyfwng yn Amwythig, yn golygu y byddai gan lai o bobl siwrneiau hirach lle mae amser yn hollbwysig. Fe fyddai mwy o bobl dan anfantais dan Opsiwn 2, sef cael y safle Gofal Argyfwng yn Telford, gan y byddai'n rhaid iddyn nhw deithio'n bellach i gael gwasanaethau argyfwng. Mae hyn yn cynnwys cymunedau ar draws Croesoswallt, De Sir Amwythig a chanolbarth Cymru.

Fe fyddai'r ddau opsiwn yn golygu y byddai amseroedd teithio cyffredinol, ar gyfartaledd yn cynyddu rhyw fymryn ar gyfer cleifion. Fodd bynnag, i gleifion sydd eisoes yn teithio pellteroedd hirach mewn ambiwlansys i'r ysbyty, h.y. hyd at awr, fe fyddai'n rhaid iddyn nhw deithio'n bellach fyth dan Opsiwn 2.



Fe fyddai'n diwallu anghenion ein poblogaeth hŷn yn well, yn enwedig yn Sir Amwythig a chanolbarth Cymru

Rydyn ni'n gwybod bod pobl hŷn yn defnyddio gwasanaethau argyfwng mewn ysbytai yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall. Maen nhw'n fwy tebygol o fod â chyflwr iechyd sylfaenol, aros yn hirach yn yr ysbyty a chael eu hatgyfeirio i aros yn hirach yn hytrach na dychwelyd adref. Pobl 60 oed a hŷn ydy mwy na chwarter (27.5%)* yr holl achosion sy'n cael eu derbyn mewn argyfwng i'n dau ysbyty. Y rheini sydd dros 75 oed ydy'r rhai mwyaf tebygol o unrhyw grŵp oedran i ddefnyddio gwasanaethau argyfwng.

Mae mwyafrif ein poblogaeth hŷn yn byw yn Sir Amwythig a chanolbarth Cymru ac mae'r niferoedd hyn yn cynyddu'n gyflymach nag y maen nhw ar draws Telford & Wrekin. Yn ôl yr amcangyfrif, rhagwelir y bydd pobl 70 oed a hŷn yn cyfrif am 25% o boblogaeth Sir Amwythig a 29% o boblogaeth canolbarth Cymru erbyn 2036, o'i gymharu â 18% yn Telford & Wrekin. Mae hyn wedi bod yn ffactor arall wrth benderfynu ar yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio, sef cael y safle Gofal Argyfwng yn Amwythig.

 **Adroddiad Asesiad Effaith Integredig Future Fit 2016*

Opsiwn 1 sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn y tymor hir

Mae gennym ni adeiladau sy'n heneiddio yn ein dau ysbyty, gyda rhai yn Amwythig yn dyddio o'r 1960au. Rydyn ni'n cydnabod bod angen inni fuddsoddi yn ein hadeiladau er mwyn parhau i gael dau ysbyty prysur a bywiog. Pan wnaed arolwg o gyflwr yr adeiladau ar y ddau safle, dangoswyd bod swm sylweddol yn methu â bodloni safonau boddhaol, a gwelwyd bod nifer sylweddol o ardaloedd yn annerbyniol, yn enwedig yn Amwythig. Yn y dadansoddiad economaidd cyffredinol o'r opsiynau, sy'n cyfuno canlyniadau'r arfarniad ariannol ac anariannol, yr amcangyfrif ydy mai Opsiwn 1 fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian yn y tymor hir. Gallwch chi ddarllen mwy am sut y gwnaethom ni benderfynu ar yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio ar dudalen 37.

Effaith ar Ofal Cynlluniedig

Yn ystod ein hoes, fe fydd y mwyafrif ohonon ni'n manteisio ar wasanaethau ysbyty ar gyfer llawdriniaethau a gweithdrefnau cynlluniedig yn amlach nag ar gyfer gofal argyfwng. Yn ystod 2016/17, cafodd y mwyafrif helaeth o'n cleifion yn ein dau ysbyty ofal cynlluniedig yn hytrach na gofal argyfwng. Mae hyn yn cynnwys apwyntiadau cleifion allanol, gweithdrefnau a llawdriniaethau.

Dan yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio, fe fyddai gofal cynlluniedig anghymhleth o fewn cyrraedd mewn car i'r mwyafrif o bobl (75%) o fewn 30 munud. Rydyn ni'n cydnabod y byddai'n rhaid i rai pobl deithio'n bellach i gael eu gofal cynlluniedig os y byddai'r safle Gofal Cynlluniedig yn Telford. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn fod yn anghyfleus, dydy'r rhain ddim yn siwrneiau lle mae amser yn hollbwysig.

Effaith ar Wasanaethau Menywod a Phlant

Mae'r modd o drin a gofalu am fenywod a phlant wedi newid o dipyn i beth dros y blynyddoedd. Mae mwyafrif y plant sydd angen dod i'r ysbyty dros nos i gael eu gofal arbenigol nawr yn aros am ddiwrnod ar gyfartaledd. Mae hyn yn sylweddol lai na 10 mlynedd yn ôl. Gellir rhoi llawer o ofal nawr i blant fel cleifion allanol, tra byddai plentyn yn y gorffennol wedi gorfod aros yn yr ysbyty dros nos.

Dan yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio, fe fyddai unrhyw blentyn a fyddai angen asesiad arbenigol, aros dros nos neu lawdriniaeth yn mynd i'r safle Gofal Argyfwng yn Amwythig am ei ofal. I'r nifer bach o blant y byddai angen eu derbyn i'r ysbyty, fe fyddai hyn yn golygu amseroedd teithio hirach i rai teuluoedd. Fodd bynnag, fe fyddai'r mwyafrif o blant (tua 700 yr wythnos) dal yn gallu derbyn gofal yn eu hysbyty agosaf, naill ai yn y Ganolfan Gofal Brys 24 awr neu yn yr adran cleifion allanol sy'n blant. Fel nawr, fe fyddai cyfleusterau'n cael eu darparu ar y safle Gofal Argyfwng i rieni allu aros dros nos gyda'u plentyn.

Dan yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio, fe fyddai menywod sy'n cael genedigaeth risg uchel, neu'r rheini a fyddai angen cymorth meddygol, naill ai cyn neu yn ystod yr esgor, yn derbyn gofal ar y safle Gofal Argyfwng yn Amwythig. Fe fyddai gofal cynenedigol, fel apwyntiadau a sganiau, yn parhau i gael eu darparu ar y ddau safle. Os ydych chi'n cael genedigaeth risg uchel ond yn byw yn agosach at Telford, fe fyddech chi'n gweld eich bydwraig a'ch meddyg yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol, asesiadau a sganiau. Unwaith y byddwch chi wedi cael eich baban yn Ysbyty Brenhinol Amwythig, mae'n bosibl y byddwch chi'n cael cynnig y dewis i dderbyn gweddill eich gofal yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol. Fe fydd yn golygu y bydd yn rhaid i rai menywod sydd ag amseroedd teithio byr ar hyn o bryd deithio ychydig yn bellach i gael eu baban dan arweiniad ymgynghorydd. Fodd bynnag, i'r menywod hynny sy'n teithio pellteroedd sylweddol hirach ar hyn o bryd, weithiau hyd at 60 munud, fe fydd cwtogi sylweddol ar eu hamser teithio nhw dan yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio.

Mae'r mwyafrif helaeth o wasanaethau gynaecoleg nawr yn cael eu darparu fel achosion cleifion allanol neu fel achosion dydd. Fe fydd gwasanaethau cleifion allanol yn aros ar ein dau safle. Fe fyddai'r holl ofal achosion dydd a gynaecoleg cleifion mewnol risg uchel yn digwydd ar y safle Gofal Argyfwng. Rydyn ni'n amcangyfrif y byddai bron hanner (45%) o'r gofal felly'n cael ei ddarparu ar y safle Gofal Cynlluniedig ar gyfer menywod y mae angen gwasanaethau gynaecoleg arnyn nhw.

Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad, fe fyddwn ni'n edrych ar ffyrdd y gallwn ni helpu i leihau'r effaith y gallai newidiadau i'n gwasanaethau ysbyty ei chael ar ein cleifion. Mae rhagor o wybodaeth am amseroedd teithio i'w gweld yn adroddiadau'r Asesiad Effaith Integredig yn www.nhsfuturefit.org

Beth y byddai'r opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio

Sefyllfa	Dwi'n byw yn agosach at Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol	Dwi'n byw yn agosach at Ysbyty Brenhinol Amwythig	Dwi'n byw yn ardal canolbarth Cymru
Mae angen gofal argyfwng arna' i – mae gen i glefyd neu anaf sy'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ***Er enghraifft, dwi'n colli gwaed yn ddifrifol neu'n colli ymwybyddiaeth***	Fe fyddech chi'n mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe aeth bron 120,000 o bobl i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. O'r rhain, roedd angen gofal argyfwng ar bron 45,000 ohonyn nhw.*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr. Fe ddylech chi dderbyn gofal mwy diogel, cyflymach a gwell. Mae hyn oherwydd y byddai cleifion sydd â chlefydau neu anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff yn mynd i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr.	Fe fyddech chi'n mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe aeth bron 120,000 o bobl i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. O'r rhain, roedd angen gofal argyfwng ar bron 45,000 ohonyn nhw.*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr. Fe ddylech chi dderbyn gofal mwy diogel, cyflymach a gwell. Mae hyn oherwydd y byddai cleifion sydd â chlefydau neu anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff yn mynd i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr.	Fe fyddech chi'n mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe aeth bron 120,000 o bobl i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. O'r rhain, roedd angen gofal argyfwng ar bron 45,000 ohonyn nhw.*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr. Fe ddylech chi dderbyn gofal mwy diogel, cyflymach a gwell. Mae hyn oherwydd y byddai cleifion sydd â chlefydau neu anafiadau nad ydyn nhw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff yn mynd i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr.
Mae angen gofal brys arna' i – mae gen i glefyd neu anaf sydd ddim yn bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am sylw brys ***Er enghraifft, dwi wedi sgaldio, maen nhw'n tybio fy mod i wedi torri asgwrn neu mae gen i haint ar y frest***	Fe fyddech chi'n mynd i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ***Fe fyddai'n bosibl trin mwy na 75,000 o'n cleifion sydd ar hyn o bryd yn mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys yn ein canolfannau gofal brys 24 awr yn y naill ysbyty neu'r llall*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr, ond fe ddylen nhw eich gweld yn gyflymach. Mae hyn oherwydd y byddai cleifion â chyflyrau mwy difrifol yn mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig.	Fe fyddech chi'n mynd i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Fe fyddai'n bosibl trin mwy na 75,000 o'n cleifion sydd ar hyn o bryd yn mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys yn ein canolfannau gofal brys 24 awr yn y naill ysbyty neu'r llall*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr, ond fe ddylen nhw eich gweld yn gyflymach. Mae hyn oherwydd y byddai cleifion â chyflyrau mwy difrifol yn mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig.	Fe fyddech chi'n mynd i'r Ganolfan Gofal Brys 24 awr yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Fe fyddai'n bosibl trin mwy na 75,000 o'n cleifion sydd ar hyn o bryd yn mynd i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys yn ein canolfannau gofal brys 24 awr yn y naill ysbyty neu'r llall*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr, ond fe ddylen nhw eich gweld yn gyflymach. Mae hyn oherwydd y byddai cleifion â chyflyrau mwy difrifol yn mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig.
Mae angen gofal cynlluniedig arna' i ***Er enghraifft, mae llawdriniaeth wedi'i threfnu ar fy nghyfer***	Fe fyddai'r mwyafrif o gleifion yn mynd i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ***Yn ystod 2016-17, roedd yna 50,000 o lawdriniaethau cynlluniedig yn ein dau ysbyty*** I'r mwyafrif o gleifion, ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr. Dim ond os ydych chi'n cael llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth neu os oes gennych chi gyflwr a allai alw am gymorth y tîm gofal critigol y byddech chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig. Mae'n annhebygol iawn y bydd eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo gan fod gwelyau'n brin oherwydd bod rhywun wedi'i dderbyn mewn argyfwng.	Fe fyddai'r mwyafrif o gleifion yn mynd i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ***Yn ystod 2016-17, roedd yna 50,000 o lawdriniaethau cynlluniedig yn ein dau ysbyty*** I'r mwyafrif o gleifion, fe fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr. Dim ond os ydych chi'n cael llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth neu os oes gennych chi gyflwr a allai alw am gymorth y tîm gofal critigol y byddech chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig. Mae'n annhebygol iawn y bydd eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo gan fod gwelyau'n brin oherwydd bod rhywun wedi'i dderbyn mewn argyfwng.	Fe fyddai'r mwyafrif o gleifion yn mynd i Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol ***Yn ystod 2016-17, roedd yna 50,000 o lawdriniaethau cynlluniedig yn ein dau ysbyty*** I'r mwyafrif o gleifion, fe fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr. Dim ond os ydych chi'n cael llawdriniaeth gynlluniedig gymhleth neu os oes gennych chi gyflwr a allai alw am gymorth y tîm gofal critigol y byddech chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig. Mae'n annhebygol iawn y bydd eich llawdriniaeth yn cael ei chanslo gan fod gwelyau'n brin oherwydd bod rhywun wedi'i dderbyn mewn argyfwng.

(Opsiwn 1) yn ei olygu i chi ac i'ch teulu

Sefyllfa	Dwi'n byw yn agosach at Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol	Dwi'n byw yn agosach at Ysbyty Brenhinol Amwythig	Dwi'n byw yn ardal canolbarth Cymru
Mae gen i apwyntiad fel claf allanol ***Er enghraifft, mae fy meddyg teulu wedi fy atgyfeirio at arbenigwr***	Mae apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu cynnal yn ein dau ysbyty. ***Yn ystod 2016-17, roedd yna fwy na 400,000 o apwyntiadau cleifion allanol dan arweiniad ymgynghorydd yn ein dau ysbyty*** I'r mwyafrif o gleifion, ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.	Mae apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu cynnal yn ein dau ysbyty. ***Yn ystod 2016-17, roedd yna fwy na 400,000 o apwyntiadau cleifion allanol dan arweiniad ymgynghorydd yn ein dau ysbyty*** I'r mwyafrif o gleifion, ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.	Mae apwyntiadau cleifion allanol yn cael eu cynnal yn ein dau ysbyty. ***Yn ystod 2016-17, roedd yna fwy na 400,000 o apwyntiadau cleifion allanol dan arweiniad ymgynghorydd yn ein dau ysbyty*** I'r mwyafrif o gleifion, ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.
Dydy fy mhlentyn 5 mis oed ddim yn dda ac mae angen iddo aros yn yr ysbyty dros nos ***Er enghraifft, mae ganddo haint ar y frest a dydy o ddim yn bwydo***	Fe fyddai'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, bu rhyw 4,000 o blant yn aros dros nos yn yr Uned Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle mae'ch plentyn yn mynd nawr.	Fe fyddai'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, bu rhyw 4,000 o blant yn aros dros nos yn yr Uned Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle mae'ch plentyn yn mynd nawr.	Fe fyddai'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, bu rhyw 4,000 o blant yn aros dros nos yn yr Uned Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle mae'ch plentyn yn mynd nawr.
Mae fy mhlentyn yn cael triniaeth cemotherapi	Fe fyddai'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe dderbyniodd 170 o blant ofal yn yr Uned Canser Plant yn Telford*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle mae'ch plentyn yn mynd nawr.	Fe fyddai'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe dderbyniodd 170 o blant ofal yn yr Uned Canser Plant yn Telford*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle mae'ch plentyn yn mynd nawr.	Fe fyddai'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe dderbyniodd 170 o blant ofal yn yr Uned Canser Plant yn Telford*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle mae'ch plentyn yn mynd nawr.
Dwi'n mynd i esgor dan arweiniad ymgynghorydd ***Er enghraifft, dwi'n cael toriad Cesaraidd cynlluniedig***	Fe fyddech chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe wnaeth mwy na 4,000 o fenywod esgor dan arweiniad ymgynghorydd yn y Ganolfan Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.	Fe fyddech chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe wnaeth mwy na 4,000 o fenywod esgor dan arweiniad ymgynghorydd yn y Ganolfan Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.	Fe fyddech chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Amwythig ***Yn ystod 2016-17, fe wnaeth mwy na 4,000 o fenywod esgor dan arweiniad ymgynghorydd yn y Ganolfan Menywod a Phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol*** Fe fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.
Dwi'n feichiog ac mae sgan wedi'i drefnu ar fy nghyfer â'm bydwraig	Fe fyddech chi'n mynd i'ch uned agosaf dan arweiniad bydwragedd ***Yn ystod 2016-17, fe gafodd mwy na 20,500 o fenywod sgan mamolaeth yn un o'n hunedau dan arweiniad bydwragedd*** ***Yn ystod 2016-17, fe wnaeth bron 650 o fenywod esgor yn un o'n hunedau dan arweiniad bydwragedd*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.	Fe fyddech chi'n mynd i'ch uned agosaf dan arweiniad bydwragedd ***Yn ystod 2016-17, fe gafodd mwy na 20,500 o fenywod sgan mamolaeth yn un o'n hunedau dan arweiniad bydwragedd*** ***Yn ystod 2016-17, fe wnaeth bron 650 o fenywod esgor yn un o'n hunedau dan arweiniad bydwragedd*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.	Fe fyddech chi'n mynd i'ch uned agosaf dan arweiniad bydwragedd ***Yn ystod 2016-17, fe gafodd mwy na 20,500 o fenywod sgan mamolaeth yn un o'n hunedau dan arweiniad bydwragedd*** ***Yn ystod 2016-17, fe wnaeth bron 650 o fenywod esgor yn un o'n hunedau dan arweiniad bydwragedd*** Ni fyddai hyn yn wahanol i lle rydych chi'n mynd nawr.

Teithio i'n hysbytai

Mae ein dau ysbyty'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr iawn, o Groesoswallt a Market Drayton yn y gogledd i Cleobury Mortimer a Cholunwy (Clun) yn y de; o'r Trallwng a Llanidloes yn y gorllewin i Bridgenorth a Newport yn y dwyrain. Rydyn ni'n cydnabod y byddai unrhyw newid i'n gwasanaethau ysbyty'n cael effaith ar deithio i rai o'n cleifion, ein hymwelwyr a'n staff. Er eich bod chi wedi dweud wrthym ni eich bod chi eisiau'r gofal gorau posibl pan mae'n rhaid ichi fynd i'r ysbyty, rydyn ni hefyd yn deall y bydd teithio a thrafnidiaeth yn ffactor pwysig i chi ac i'ch teulu.

Mae teithio a thrafnidiaeth wedi bod yn ffactor allweddol wrth ddatblygu'r model gofal ysbyty rydyn ni'n ei gynnig ac wrth benderfynu ar yr opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio. Rydyn ni wedi cwblhau Dadansoddiad o'r Effaith ar Deithio i ddeall yr effaith y byddai unrhyw newidiadau i'n gwasanaethau ysbyty'n ei chael ar gleifion ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru. Gallwch chi ddarllen hwn ar ein gwefan: www.nhsfuturefit.org

Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad hwn, fe fyddai'r mwyafrif o gleifion yn dal i fynd i'r un ysbyty ag y maen nhw'n mynd iddo nawr. Fodd bynnag, fe fydd yn golygu y bydd yn rhaid i rai pobl deithio pellteroedd byrrach ac y bydd yn rhaid i rai deithio'n bellach i gael eu gofal.

Teithio'n bellach mewn ambiwlans i fynd i'r lle iawn

Ledled Lloegr, mae angen i ambiwlansys weithiau yrru heibio i adran damweiniau ac achosion brys i fynd â chleifion i'r lle iawn i gael y driniaeth iawn.

Er enghraifft, mewn adroddiad gan GIG Lloegr*, nodwyd bod cleifion sydd wedi cael trawiad ar y galon yn fwy tebygol o lawer o oroesi erbyn hyn. Un rheswm am hyn ydy bod parafeddygon yn gallu gwneud diagnosis o gleifion yn yr ambiwlans a gwneud yn siŵr bod cleifion yn cael eu cludo i'r ysbytai iawn i gael y driniaeth fwyaf datblygedig. Mae hyn yn aml yn golygu y byddan nhw'n gyrru heibio i'r adran damweiniau ac achosion brys agosaf i fynd â'r claf i'r lle iawn.

Mae hyn eisoes yn digwydd yn ein sir ni, er enghraifft mae ambiwlansys yn mynd â chleifion sydd wedi cael strôc ac sydd angen gofal arbenigol i'r Uned Strôc yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford. Yn yr un modd, mae cleifion o ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru sydd angen llawdriniaeth ar y galon neu'r ysgyfaint yn cael eu trin fel mater o drefn yn Ysbytai Prifysgol Gogledd Canolbarth Lloegr yn Stoke-on-Trent.

Fe fyddai cael ysbytai ar wahân ar gyfer gofal argyfwng a gofal cynlluniedig yn helpu i wneud yn siŵr bod mwy o gleifion yn cael eu cludo mewn ambiwlans yn gyflym i'r lle iawn i gael y gofal a'r driniaeth iawn. Mae Gwasanaeth Ambiwlans Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru'n mynd â chleifion o ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru i'n dau ysbyty. Mae'r ddau sefydliad wedi chwarae rhan ym mhroses Future Fit ac maen nhw'n cefnogi cyflawni'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn. Fe fydd trafodaethau manwl yn parhau â'r ddau wasanaeth ambiwlans gydol y broses ymgynghori a thu hwnt.

A oeddech chi'n gwybod?

Yn ystod 2016-17, daeth ambiwlansys â mwy na 33,000 o gleifion i'r adrannau damweiniau ac achosion brys yn Ysbyty Brenhinol Amwythig ac Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol. Nid oedd angen gofal adran damweiniau ac achosion brys ar ryw 35% o'r cleifion hyn, a byddai modd eu trin yn un o'n Canolfannau Gofal Brys 24 awr yn y dyfodol.



 *Adroddiad 'Transforming urgent and emergency care services in England' GIG Lloegr, Tachwedd 2013

Teithio mewn ambiwlans i Uned Drawma

Mae'n rhaid mynd â rhai o'n cleifion â'r clefydau neu'r anafiadau mwyaf difrifol i'r Uned Drawma yn Amwythig, er mwyn rhoi'r gofal argyfwng gorau posibl iddyn nhw.

Pe bai Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn dod yn safle Gofal Argyfwng fe fyddai angen iddo wneud cais i ddod yn Uned Drawma a chael ei gymeradwyo. Fe fyddai hyn yn effeithio ar rai grwpiau o gleifion, gan gynnwys y rheini yng nghanolbarth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am Unedau Trawma i'w gweld ar dudalen 25.

Rhai syniadau y gallen ni weithio gyda phartneriaid arnyn nhw:

- Defnyddio mwy ar yr ambiwlans awyr
- Estyn yr amseroedd y mae'r ambiwlans awyr yn gallu hedfan trwy gael mwy o safleoedd y gellir glanio ynddyn nhw yn y nos
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i 'uwchsgilio' staff
- Cael mwy o barafeddygon
- Edrych ar ddatblygiadau technolegol posibl dros yr ychydig flynyddoedd nesaf e.e. diagnosteg symudol
- Cael meddyg trawma ar gael yn amlach a/neu fwy o barafeddygon gofal critigol yn ystod y daith
- Adolygu lleoliadau canolfannau ar gyfer ambiwlansys a cherbydau argyfwng eraill
- Mynd â chleifion i Unedau Trawma eraill, gan gynnwys Henffordd, Caerwrangon, Wrecsam neu Wolverhampton.

Gwella cyfleusterau parcio ceir a theithio i'n hysbytai

Yn 2016, fe ofynnodd Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford i arbenigwyr annibynnol gwblhau astudiaeth drafnidiaeth fu'n edrych ar deithio a pharcio yn ein dau ysbyty. O ganlyniad i'r astudiaeth hon, cynigiwyd nifer o argymhellion:

- Darparu cyfleusterau parcio ychwanegol yn y ddau ysbyty
- Gweithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i wella llwybrau seiclo, arwyddion a chyfleusterau ar gyfer seiclwyr
- Sefydlu grŵp teithio a thrafnidiaeth i edrych yn fanylach ar y gwaith hwn.

Gallwch chi ddarllen yr Astudiaeth Drafnidiaeth yn www.nhsfuturefit.org

Rhai syniadau ynglŷn â sut y gallen ni leihau effaith amseroedd teithio ychwanegol:

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, fanwl gywir i gleifion ac ymwelwyr am eu dewisiadau teithio a pharcio, gan gynnwys costau
- Rhoi gwybodaeth i gleifion am gynlluniau sy'n cynnig cymorth â chostau teithio
- Rhoi gwybodaeth am deithio gyda llythyrau am apwyntiadau
- Lle bo'n bosibl, trefnu apwyntiadau ar adegau sy'n gyfleus i drefniadau teithio claf
- Gweithio gyda darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus i edrych ar ffyrdd y gellid gwella trafnidiaeth gyhoeddus i'r ddau ysbyty
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer teleiechyd a thechnolegau eraill i rith-gysylltu'r ddau safle ysbyty.

Yn ystod yr ymgynghoriad, rydyn ni eisiau clywed eich barn chi ar sut rydych chi'n meddwl y gallen ni helpu i leihau'r effaith y gallai unrhyw newidiadau i'n gwasanaethau ysbyty ei chael ar ein cleifion a'u hymwelwyr. Beth bynnag fydd deilliant yr ymgynghoriad, mae'n arbennig o bwysig ein bod ni'n deall yn iawn sut y gallwn ni leihau'r effaith i unrhyw un a allai fod dan fwy o anfantais o ganlyniad i unrhyw newidiadau. Er enghraifft, gall hyn gynnwys rhai menywod a phlant sy'n defnyddio'r safle Gofal Argyfwng a rhai pobl hŷn sy'n defnyddio'r safle Gofal Cynlluniedig.

Sut mae ein meddygon, nyrsys, staff eraill a chleifion wedi chwarae rhan

Rydyn ni'n gwybod bod gwasanaethau iechyd lleol o ddiddordeb i amrywiaeth eang o bobl, a'u bod nhw eisiau dweud eu dweud a'n helpu ni i wneud unrhyw newidiadau. Dros y pedair blynedd diwethaf, rydyn ni wedi gwneud pob ymdrech i wrando ar, a chynnwys cynifer o bobl â phosibl.

Rydyn ni wedi cynnal mwy na 200 o ddigwyddiadau ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru ac wedi siarad â miloedd o gleifion, teuluoedd, grwpiau cymunedol a'r cyhoedd ehangach. Mae hyn wedi cynnwys gwesteio grwpiau ffocws, cynnal arolygon, annerch grwpiau amrywiol a chynnal sioeau teithiol.

Mae llawer o'n meddygon, nyrsys, therapyddion, rheolwyr a staff eraill hefyd wedi chwarae rhan fawr yn ein helpu ni i gyrraedd y pwynt yma. Maen nhw wedi cymryd rhan mewn amryw o gyfarfodydd, gweithgorau a digwyddiadau. Mae mwy na 60% o'r ymgynghorwyr sy'n gweithio yn ein dau ysbyty wedi bod yn rhan o waith cynllunio a datblygu'r model ysbyty arfaethedig mewn cyfarfodydd, gweithdai a thrafodaethau timau arbenigol.

Fe fyddwn ni'n parhau i ymgysylltu â'n staff, cleifion a chymunedau ehangach gydol y cyfnod ymgynghori hwn a thu hwnt. Gallwch chi ddysgu mwy am ein proses ymgysylltu ar ein gwefan: www.nhsfuturefit.org



Sut inni benderfynu ar y ddau opsiwn rydyn ni'n gofyn am eich barn chi arnyn nhw

2015

Datblygwyd mwy na 40 o syniadau posibl

|

Medi 2015

Lluniwyd rhestr fer o bedwar opsiwn

|

Medi 2016

Lluniwyd rhestr fer o ddau opsiwn mewn Gweithdy Arfarnu Opsiynau

|

Tachwedd 2016

Cytunodd Bwrdd Rhaglen Future Fit ar ddau opsiwn i fod yn destun ymgynghori

|

Gorffennaf 2017

Cytunodd Bwrdd Rhaglen Future Fit mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn roedd yn ei ffafrio

|

Awst 2017

Cytunodd Cyd-bwyllgor Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn unfrydol mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn roedd yn ei ffafrio

|

Mai 2018

Lansio'r ymgynghoriad

Ar ôl gwrando ar farn a syniadau pobl, bu meddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill yn ystyried mwy na 40 o syniadau posibl i ddechrau ynglŷn â sut y gallen ni newid ein gwasanaethau ysbyty. Dilynwyd proses gadarn, yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd, astudiaeth ddichonoldeb a phanel llunio rhestr fer, a chyfyngwyd ar y 40 syniad hyn i gael y pedwar opsiwn a ganlyn:

Opsiwn A: Gwneud dim

Opsiwn B (sef Opsiwn 2 bellach): Gofal Argyfwng yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol a Gofal Cynlluniedig yn Ysbyty Brenhinol Amwythig

Opsiwn C1 (sef Opsiwn 1 bellach): Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig a Gofal Cynlluniedig yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol

Opsiwn C2: Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig a Gofal Cynlluniedig yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol, a chadw gwasanaethau cleifion mewnol ar gyfer menywod a phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol.

Gwnaethom ni benderfynu ar y ddau opsiwn rydyn ni'n ymgynghori yn eu cylch yn sgil proses arfarnu gadarn a thrwyadl.

Arfarniad anariannol

Ym mis Medi 2016, cynhaliwyd gweithdy Arfarnu Opsiynau gan wahodd cynrychiolwyr o fwy na 50 o sefydliadau rhanddeiliaid o ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru i lunio panel. Roedd hyn yn cynnwys Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin, Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Cynghorau Sir Amwythig a Telford & Wrekin, Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Powys, Healthwatch Sir Amwythig, Healthwatch Telford & Wrekin, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Gorllewin Canolbarth Lloegr, GIG Lloegr a chynrychiolwyr cleifion.

Fe edrychodd y panel ar yr effaith anariannol y byddai pob opsiwn yn ei chael ar bedwar o feini prawf allweddol:

1. Hygyrchedd – gan edrych ar amser teithio ar gyfer pobl sy'n manteisio ar ofal cynlluniedig, gofal argyfwng a gofal brys
2. Ansawdd – diben hyn oedd archwilio ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion, gan gynnwys amseroedd siwrneiau critigol ar gyfer cyflyrau sy'n bygwth colli bywyd
3. Gweithlu – gan edrych ar ddiffygion o ran staff a'n gallu i recriwtio meddygon, nyrsys a staff gofal iechyd eraill
4. Tebygolrwydd o'i Gyflawni – gan edrych yn fanwl ar waith y byddai angen ei wneud i'r ystadau i gael yr adeiladau newydd gofynnol yn brydlon.

Gofynnwyd i aelodau'r panel benderfynu ar bwysigrwydd cymharol pob maen prawf a'u pwysoli allan o 100. Ansawdd (yn cynnwys diogelwch a phrofiad cleifion) ddaeth uchaf ar y rhestr, ac yna'r Gweithlu, Hygyrchedd a Thebygolrwydd o'i Gyflawni. Roedd y drefn hon yn adlewyrchu canlyniadau'r arolwg dros y ffôn.

Rhoddwyd gwybodaeth a thystiolaeth amrywiol i bob aelod o'r panel ar gyfer pob maen prawf cyn gofyn iddyn nhw roi sgôr i bob opsiwn. Fel y gwelwch chi o'r tabl isod, Opsiwn C1 (sef Opsiwn 1 bellach) ac Opsiwn B (sef Opsiwn 2 bellach) dderbyniodd y sgorau uchaf ym mhob un o'r pedwar maen prawf:

Meini Prawf	Pwysoli y cytunwyd arno	Cyfanswm sgorau wedi'u pwysoli			
		Opsiwn A	Opsiwn B*	Opsiwn C1**	Opsiwn C2
Hygyrchedd	**25.1% (3)**	59.8	45.2	65.1	47.7
Ansawdd	**31.2% (1)**	39.0	65.0	91.5	24.7
Gweithlu	**27.3% (2)**	26.0	67.0	76.8	26.2
Tebygolrwydd o'i Gyflawni	**16.3% (4)**	19.6	40.5	42.4	22.2
Cyfanswm sgôr	**100%**	**144.4**	**217.6**	**275.8**	**120.8**
	SAFLE	**3**	**2**	**1**	**4**

* Opsiwn 2 ydy'r enw ar Opsiwn B bellach ** Opsiwn 1 ydy'r enw ar Opsiwn C1 bellach, a dyma'r opsiwn rydyn ni'n ei ffafrio

Arfarniad ariannol

Mae'r pedwar opsiwn ar y rhestr fer wedi'u gwerthuso'n llawn yn unol â gofynion Canllawiau Achos Busnes yr Adran Iechyd a gofynion Trysorlys EM i weld pa opsiwn sy'n cynrychioli'r gwerth gorau am arian.

Fe edrychodd yr arfarniad ariannol ar gostau cyfalaf, h.y. yr arian y byddai ei angen i adeiladu unrhyw gyfleusterau newydd:

- Cost cyfalaf rhagamcanol o £312 miliwn sydd i Opsiwn C1 (sef Opsiwn 1 bellach)
- Cost cyfalaf rhagamcanol o £250 miliwn sydd i Opsiwn B (sef Opsiwn 2 bellach)

Fe ystyriodd yr arfarniad y costau refeniw hefyd, h.y. y costau y byddai eu hangen i ad-dalu'r arian y byddwn ni'n ei fenthyg a'r costau rhedeg ar gyfer staff ac adeiladau.

O ganlyniad i'r arfarniad ariannol, Opsiwn B (sef Opsiwn 2 bellach) ddaeth uchaf ar y rhestr gyda 0.8% o wahaniaeth, sy'n cyfateb i wahaniaeth mewn cost flynyddol gyfwerth o £2.7 miliwn dros gyfnod o 60 mlynedd.

Sicrhau'r arian sydd ei angen arnom ni

Fel yn achos pob cyllid cyhoeddus, mae yna gyfyngiad ar y cyfalaf sydd ar gael (hynny yw, yr arian sydd ei angen i adeiladu ac ailwampio cyfleusterau ac adeiladau ysbyty). Rydyn ni'n rhan o broses genedlaethol i sicrhau cyllid oddi wrth y llywodraeth ac rydyn ni'n gweithio gyda'r timau cenedlaethol wrth iddyn nhw ddatblygu eu cynlluniau. Mae NHS Improvement, sef corff rheoleiddio Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford, yn cefnogi blaenoriaethu'r rhaglen hon ar gyfer cyllid cyfalaf. Rydyn ni'n gwybod na fydd yr holl arian sydd ei angen arnom ni'n dod oddi wrth y llywodraeth. Fe fydd angen i rywfaint o'r arian ddod o gyllid preifat. Mae'r gwaith i sicrhau'r holl arian sydd ei angen yn mynd rhagddo a bydd yn parhau wrth inni symud ymlaen â'r achosion busnes gofynnol.

Dadansoddiad economaidd cyffredinol

Er mwyn darparu dadansoddiad o fuddion yn gyffredinol, fe rannwyd y costau blynyddol cyfwerth gan y sgorau wedi'u pwysoli o'r arfarniad anariannol i ddarparu cost fesul pwynt budd ar gyfer pob opsiwn.

Canlyniad y broses hon oedd cost net fesul pwynt budd ar gyfer Opsiwn C1 (sef Opsiwn 1 bellach) o £1,175 o'i gymharu ag Opsiwn B (sef Opsiwn 2 bellach) o £1,477.

Felly, mae cyfuno'r arfarniad ariannol a'r arfarniad anariannol yn dangos mai Opsiwn C1 (sef Opsiwn 1 bellach) sy'n cynnig y gwerth gorau am arian yn y tymor hir.

Mae'r arfarniad ariannol manwl ar gael ar ein gwefan www.nhsfuturefit.org

Y penderfyniad terfynol ar yr opsiynau rydyn ni'n gofyn am eich barn chi arnyn nhw

Ym mis Tachwedd 2016, fe benderfynodd Bwrdd Rhaglen Future Fit, sy'n gyfrifol am gytuno ar raglen Future Fit, ei harwain a'i chydlynu, na allai Opsiwn A (gwneud dim) fod yn opsiwn oherwydd ei fod o'r farn nad oedd parhau fel yr ydyn ni nawr yn ddiogel nac yn gynaliadwy (gallwch chi ddarllen mwy am y rhesymau pam y mae angen inni newid ein gwasanaethau ysbyty ar dudalen 10).

Bu Senedd Glinigol Gorllewin Canolbarth Lloegr (sef arweinwyr clinigol arbenigol sy'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd annibynnol i gomisiynwyr) yn ystyried Opsiwn C2 (Gofal Argyfwng yn Ysbyty Brenhinol Amwythig a Gofal Cynlluniedig yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol gan gadw gwasanaethau cleifion mewnol ar gyfer menywod a phlant yn Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol). Fe ddaeth i'r casgliad bod Opsiwn C2 yn cyflwyno risg ddifrifol i ansawdd a diogelwch gwasanaethau i gleifion. Felly ei argymhelliad oedd y dylid lleoli gofal argyfwng a gwasanaethau cleifion mewnol ar gyfer menywod a phlant ar yr un safle. O'r herwydd, fe ddiystyrodd Bwrdd y Rhaglen Opsiwn C2.

Fe argymhellodd Bwrdd y Rhaglen i Gyd-bwyllgor Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin y dylid cynnal ymgynghoriad cyhoeddus sy'n gofyn am farn pobl ar y ddau opsiwn sy'n weddill, sef Opsiwn B (y cyfeirir ato nawr fel Opsiwn 2 yn yr ymgynghoriad hwn) ac Opsiwn C1 (y cyfeirir ato nawr fel Opsiwn 1 yn yr ymgynghoriad hwn).

Ym mis Gorffennaf 2017, fe gadarnhaodd Bwrdd y Rhaglen mai Opsiwn 1 oedd yr opsiwn roedd yn ei ffafrio. Fe gytunodd y Cyd-bwyllgor â hyn yn unfrydol ym mis Awst 2017. Dygwyd sylw at nifer o feysydd sy'n galw am fwy o waith i helpu i leihau effaith unrhyw newid i wasanaethau ysbyty ar grwpiau penodol o bobl. Ymhlith y rhain oedd staffio, gwasanaethau ambiwlans, gofal am blant mewn canolfannau gofal brys, teithio a llety.

Mae rhagor o wybodaeth am bob un o'r opsiynau y buom ni'n eu hystyried, y dystiolaeth ategol a'r adroddiad arfarnu i'w gweld ar ein gwefan:www.nhsfuturefit.org

Y broses sicrwydd rydyn ni wedi'i dilyn

Ers 2013 a gydol proses Future Fit, rydyn ni wedi dilyn proses sicrwydd gadarn, ac rydyn ni'n parhau i'w dilyn. Rydyn ni wedi dilyn canllawiau a deddfwriaeth Cymru a Lloegr i sicrhau ein bod ni'n ymgysylltu â phobl leol yn y ffordd iawn, ar yr adeg iawn.

Rydyn ni wedi cynnwys cynrychiolwyr cleifion, sefydliadau o'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, sefydliadau Healthwatch Sir Amwythig a Telford & Wrekin a Chyngor Iechyd Cymuned Powys mewn llunio a datblygu ein cynigion a'n cynlluniau. Mae hyn yn ogystal â gwaith helaeth rydyn ni wedi'i wneud gyda meddygon teulu a chlinigwyr lleol i sicrhau y bydd y model gofal y byddwn ni'n ei fabwysiadu'n diwallu anghenion pobl leol, nawr ac yn y dyfodol.

I'n helpu ni i ysgrifennu'r ddogfen ymgynghori hon, fe wnaethom ni lunio grŵp darllen o gleifion o Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru. Maen nhw wedi'n helpu ni i benderfynu beth i'w gynnwys a sut y dylid ei ysgrifennu. Maen nhw hefyd wedi ein cynghori ar sut y dylen ni ymgynghori â phobl leol, gan gynnwys pa ddulliau i'w defnyddio a lle y dylen ni gynnal a mynychu cyfarfodydd.

Gweithio gyda'r Consultation Institute

Mae cyngor oddi wrth y Consultation Institute (tCI), sef sefydliad arfer gorau annibynnol, dielw a gydnabyddir yn genedlaethol, wedi darparu sail ar gyfer ein gweithgarwch. Mae'r tCI yn hybu gwaith ymgynghori o ansawdd uchel â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae tCI wedi cymryd rôl sicrhau ansawdd yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

Mae hyn yn galw am broses â chwe cham:

1. Cwmpasu
2. Cynllun y prosiect
3. Dogfennaeth
4. Adolygiad canol tymor
5. Adolygiad dyddiad cau
6. Adroddiad terfynol

Fel rhan o'r broses hon, mae tCI wedi cynnig cyfarwyddyd i wneud yn siŵr ein bod ni'n bodloni'r 'pum prawf' ar gyfer ad-drefnu ac maen nhw'n darparu tystiolaeth yn ein dogfennaeth. Dyma'r pum prawf:

1. Ymgysylltu'n gryf â'r cyhoedd a chleifion
2. Sicrhau bod dewis priodol ar gael
3. Sail tystiolaeth eglur, glinigol
4. Cefnogaeth glinigol
5. Gofal cleifion pan mae nifer sylweddol o welyau'n cael eu cau – a gyflwynwyd gan GIG Lloegr ym mis Ebrill 2017

Mae tCI hefyd wedi rhoi adborth ar gynllun ein prosiect ac ar bob un o'n dogfennau ymgynghori er mwyn gwneud yn siŵr bod pobl leol yn gallu derbyn y wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw i wneud penderfyniad deallus.

Yn yr ymgynghoriad, fe fydd tCI yn cynnal adolygiad ganol ffordd trwy'r cyfnod. Fe fydd hyn yn edrych ar ba mor dda y byddwn ni wedi ymgysylltu i wneud yn siŵr ein bod ni'n darparu'r cyfleoedd gorau i bobl ddweud eu dweud. Fe fydd tCI hefyd yn edrych ar yr ymatebion i'r arolwg i wneud yn siŵr ein bod ni'n casglu adborth oddi wrth amrywiaeth eang o bobl. Fe fydd hyn yn caniatáu inni wneud newidiadau i'n gweithgarwch lle bo angen hynny, i wneud yn siŵr bod pawb wedi cael cyfle i gymryd rhan erbyn diwedd yr ymgynghoriad. Ar ddiwedd yr ymgynghoriad, fe fydd cwmni annibynnol yn dadansoddi'r holl adborth. Fe fydd y dadansoddiad hwn yn ystyried a yw unrhyw grwpiau'n credu y byddai'r newidiadau arfaethedig i wasanaethau ysbyty'n effeithio mwy arnyn nhw nag ar unrhyw grwpiau eraill. Fe fydd hefyd yn edrych i weld a oes yna unrhyw dueddiadau wedi dod i'r amlwg y bydd angen rhoi sylw iddyn nhw yn y dyfodol. Hefyd, fe fydd tCI yn cynnal adolygiad annibynnol o'r broses ac yn darparu adroddiad terfynol a fydd yn crynhoi sut y mae ein gweithgarwch wedi bodloni ei asesiad trwyadl.

Mae rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n ymgysylltu â phobl, gan gynnwys sut rydyn ni'n diwallu ein dyletswydd gyfreithiol i gynnwys pob adran o'r gymdeithas, i'w gweld yn ein cynllun ymgynghori ar ein gwefan yn: www.nhsfuturefit.org



Sicrwydd a chraffu

Wrth ddatblygu cynigion a chynlluniau, mae Cyngor Iechyd Cymuned Powys a Chyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Iechyd cynghorau Sir Amwythig a Telford & Wrekin wedi craffu ar ein gweithgarwch. Mae hefyd wedi bod yn destun proses sicrwydd ffurfiol gan GIG Lloegr. Mae pob sefydliad wedi herio'r penderfyniadau rydyn ni wedi'u gwneud a'n gwaith wrth ddatblygu'r achosion busnes sy'n cefnogi'r angen am newid, y model arfaethedig a'r opsiynau rydyn ni nawr yn ymgynghori arnyn nhw. Hefyd, bu Adolygiad Annibynnol, a gynhaliwyd yn haf 2017, yn edrych yn ôl ar ein holl weithgarwch hyd yma. Mae'r craffu trylwyr hwn wedi arwain at gynhyrchu dogfennau ac achosion busnes cadarn.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosesau sicrwydd a chraffu, gan gynnwys yr Adolygiad Annibynnol, i'w gweld ar ein gwefan yn: www.nhsfuturefit.org

Dadansoddiad o gydraddoldeb

O ddechrau rhaglen Future Fit a hyd at y cyfnod ymgynghori hwn, rydyn ni wedi ceisio bod mor gynhwysol â phosibl. Ein nod bob amser oedd na ddylai unrhyw gynigion gael effaith annheg ar unrhyw berson neu grŵp o bobl penodol, waeth beth fo'u hoedran, eu rhyw, eu hethnigrwydd, unrhyw anabledd a allai fod ganddyn nhw, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall.

Diwallu ein dyletswyddau cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus y manylir arni yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi'r sylw dyledus i'r angen i:

- Gael gwared â chamwahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall y mae'r Ddeddf yn ei wahardd
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydyn nhw'n ei rhannu
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydyn nhw'n ei rhannu. Cyfeirir at y rhain weithiau fel tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol.

Mae'r Ddeddf yn esbonio bod rhoi'r sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn galw am:

- Ddileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- Cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae nifer y bobl o'u plith sy'n cymryd rhan yn anghymesur o isel.

Ceir disgrifiad llawnach o fanylion y newidiadau arfaethedig i'n gwasanaethau ysbyty yn yr Achos Busnes Cyn Ymgynghori sydd ar gael ar ein gwefan: www.nhsfuturefit.org

Asesiadau Effaith Integredig

Rydyn ni wedi cwblhau dau Asesiad Effaith Integredig sy'n asesu effaith bosibl y newidiadau rydyn ni'n eu cynnig ac unrhyw effeithiau o ran cydraddoldeb. Mae hyn hefyd yn cynnwys effaith o bosibl symud gwasanaethau cleifion mewnol ar gyfer menywod a phlant o Telford i Amwythig. Rhoddwyd sylw i'r rhain fel rhan o broses benderfynu'r Grwpiau Comisiynu Clinigol wrth iddyn nhw ystyried pa opsiwn roedden nhw'n ei ffafrio. Fe ddilynodd yr Asesiadau Effaith Integredig broses â thri cham:

- Cwmpasu a rhestru'r holl effeithiau posibl
- Asesu effeithiau allweddol
- Asesu effeithiau o ran cydraddoldeb, gan gynnwys i'r rheini y nodwyd bod ganddyn nhw nodweddion gwarchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Gallwch chi ddarllen yr Asesiadau Effaith Integredig ar ein gwefan www.nhsfuturefit.org

Rydyn ni wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid yn Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru'n dylunio ac yn cyflawni ein gweithgareddau ymgysylltu. Rydyn ni wedi ymgymryd â meysydd gwaith penodol i gynnwys grwpiau sydd byth braidd yn cael dweud eu dweud, gan gynnwys y naw nodwedd y mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn eu gwarchod. Rhannwyd y gweithgarwch hwn â phawb fu a wnelo â phenderfynu pa opsiynau y dylen ni fwrw ymlaen â nhw i'w trafod mewn ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Mae'r gwaith hwn wedi helpu'r rhai hyn sy'n penderfynu trwy roi gwybodaeth well iddyn nhw am sut y gallan nhw hybu a gwarchod llesiant ein cymunedau lleol.

Gwella gofal y tu allan i'r ysbyty yn Sir Amwythig a Telford & Wrekin

Fel Grwpiau Comisiynu Clinigol, rydyn ni'n eglur bod angen newid ein ffordd o ddarparu gwasanaethau ysbyty. Caiff ein model gofal ysbyty newydd ei gyflawni dros y pum mlynedd nesaf ar y cyd â gwaith y Bartneriaeth Cynaliadwyedd a Thrawsnewid i ddatblygu gwasanaethau y tu allan i'r ysbyty ledled Sir Amwythig a Telford & Wrekin.

Trwy wneud hyn, rydyn ni'n disgwyl gallu gwella pethau, fel:

- cynyddu nifer y bobl sy'n mynychu'r ysbyty fel achosion dydd trwy wneud gwelliannau o ran asesu, diagnosio, trin a rhyddhau mwy o bobl yr un diwrnod
- helpu mwy o bobl i ddychwelyd adref neu i leoliad yn y gymuned ar ôl bod yn yr ysbyty, trwy leihau'r amser y maen nhw'n aros i gael eu rhyddhau
- cwtogi ar nifer y bobl sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn y lle cyntaf

Newidiadau disgwyliedig i niferoedd gwelyau

Wrth i'n poblogaeth dyfu a heneiddio, mae'r galw am ofal ysbyty'n cynyddu. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn rhoi pwysau mawr ar y gwelyau rydyn ni'n eu darparu ar draws ein hysbytai. Trwy newid ein ffordd o ddarparu gofal y tu allan i'r ysbyty, gallwn ni reoli hyn yn well. Er bod ein cynlluniau dal yn cynnwys darparu gwelyau ychwanegol dros y blynyddoedd sydd ar ddod, ni fydd y cynnydd mor sylweddol ag y byddai pe na fydden ni'n newid ein gwasanaethau cymunedol.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos sut, dan ein model gofal ysbyty newydd, y bydd niferoedd y gwelyau a'r mathau o welyau sydd gennym ni ar draws ein dau ysbyty'n newid i ddiwallu anghenion ein cleifion yn y dyfodol.

	Pwy fydd yn derbyn gofal yn y lleoedd hyn?	Nifer y gwelyau yn yr ysbytai heddiw	Nifer disgwyliedig y gwelyau yn y dyfodol
Gwelyau dros nos	Lle mae cleifion yn aros os oes angen gofal ysbyty arnyn nhw am fwy na diwrnod. Er enghraifft, claf sy'n cael ei drin ar gyfer haint difrifol ar y frest.	731	785
Gwelyau dydd	Lle mae cleifion yn aros os ydyn nhw wedi cael llawdriniaeth ond does dim angen iddyn nhw aros yn yr ysbyty dros nos. Er enghraifft, mân lawdriniaeth ar y fraich neu archwiliad fel Endosgopi.	91	105
Trolïau clinigol a chadeiriau gogwydd	Lle mae cleifion yn aros os oes angen profion arnyn nhw ac mae meddyg ysbyty'n eu gweld ond maen nhw'n debygol iawn o fynd adref y diwrnod hwnnw. Er enghraifft, claf hŷn sydd wedi cael codwm.	10	49
Gwelyau gofal critigol	Lle mae cleifion sy'n sâl iawn yn cael eu trin ac yn derbyn gofal. Er enghraifft, cleifion sy'n cael triniaeth cynnal bywyd.	23	30
Cotiau newydd-anedig	Lle mae babanod sâl sydd newydd eu geni'n derbyn gofal. Er enghraifft, baban sydd wedi'i eni cyn pryd.	22	22
Cyfanswm		**877**	**991**

Cynlluniau pum mlynedd

Mae gan y ddau Grŵp Comisiynu Clinigol gynlluniau pum mlynedd ar waith sy'n dangos sut y byddwn ni'n dod â gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu ynghyd â'r sectorau gofal awdurdod lleol, gwirfoddol ac annibynnol i ddarparu'r gofal iawn yn y lle iawn. Nid oes unrhyw beth sy'n addas i bob sefyllfa. Mae'n bosibl bod rhywbeth sy'n gweithio mewn ardaloedd mwy trefol yn anaddas ar gyfer y cymunedau mwy gwledig, ac rydyn ni'n parhau i gynnwys pobl leol wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys pethau fel:

- Timau yn yr Adran Argyfwng sy'n benodol gyfrifol am nodi cynnar, trin, asesu risg a chynllunio ar gyfer yr henoed eiddil a chleifion â chyflyrau tymor hir
- Ffocws ar atal, hunanofal a chynllunio gofal rhyngweithiol, yn enwedig ar gyfer y rheini â chyflyrau tymor hir, fel bod pobl yn cadw'n iach am hirach ac yn gallu ymdopi'n well mewn argyfwng pe bai eu cyflwr yn gwaethygu
- Model gofal diabetes newydd i ddarparu cymorth ychwanegol mewn lleoliadau cymunedol
- Cefnogi a galluogi cymunedau i helpu ei gilydd a hybu dewisiadau bywyd iach, positif, gan gynnwys rhwydweithiau gwell i bobl er mwyn gwella llesiant cynenedigol trwodd i gymorth i bobl yng nghyfnodau olaf eu bywyd
- Timau cymunedol yn gweithio'n agosach â phractisau meddygon teulu i ddarparu gofal di-dor y tu allan i'r ysbyty ac yn agosach at gartref i gleifion mwy agored i niwed, fel yr henoed a'r rheini â chyflyrau tymor hir a mwy nag un cyflwr
- Datblygu staff a gwasanaethau iechyd ychwanegol mewn practisau meddygon teulu
- Rheoli gofal y nifer mawr o gleifion sy'n hen ac yn eiddil y gellid trin eu cyflyrau yn y gymuned yn hytrach na'u derbyn i'r ysbyty.

Os ydy rhai o'n syniadau a'n cynlluniau'n galw am newidiadau i wasanaethau, yna mae'n bosibl y bydd angen inni ymgynghori'n ffurfiol ar y rhain rywbryd yn y dyfodol agos. Cyn inni wneud unrhyw benderfyniadau, fe fyddwn ni'n gofyn ichi gymryd rhan mewn unrhyw ymgynghoriadau ac mewn cynllunio unrhyw wasanaethau newydd.

Newidiadau i'r ffyrdd y mae ein staff yn gweithio

Wrth i'n gwasanaethau newid, felly hefyd y mae gwaith ein staff yn newid. Mae rolau meddygol a rolau nyrsio traddodiadol yn newid. Er enghraifft, yn 2018 fe fyddwn ni'n gweld Cymdeithion Nyrsio'n dechrau yn ein hysbytai. Rhaglen hyfforddi dwy flynedd genedlaethol ydy hon, lle bydd staff yn cael eu hyfforddi i lenwi rhai o'r rolau y mae ein Nyrsys Cofrestredig yn eu gwneud ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â hyn, fe fyddwn ni'n datblygu rolau ein Hymarferwyr Uwch mewn meddygaeth a llawdriniaeth. Rydyn ni wedi gweld bod y staff hyn wedi gweithio'n dda am sawl blwyddyn mewn rolau y mae meddygon iau wedi bod yn eu gwneud yn draddodiadol, yn gofalu am fabanod newydd-anedig, babanod, plant a phobl ifanc. Fe fydd Ymarferwyr Uwch hefyd yn cymryd y rôl arweiniol yn rhedeg ein Canolfannau Gofal Brys 24 awr newydd. Mae ein rolau anghlinigol yn newid hefyd. Wrth inni symud tuag at systemau gynyddol ddibapur, fe fydd y bobl sydd wedi'u cyflogi i greu a symud cofnodion meddygol papur yn cael eu hailhyfforddi a chaiff eu sgiliau eu defnyddio mewn mannau eraill.

Ar hyn o bryd, mae gan Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford drosiant o fwy na 350 o staff bob blwyddyn ac felly dydyn ni ddim yn disgwyl y bydd yn golygu y bydd unrhyw un yn cael ei ddiswyddo. Ein nod fydd cyflawni'r newidiadau angenrheidiol mewn ffordd gynlluniedig a fydd yn caniatáu inni gadw'r staff sydd gennym ni ar hyn o bryd a recriwtio'r staff newydd gorau oll.

Mae rhagor o wybodaeth am y cyfan o'r uchod i'w gweld yn ein Hachos Busnes Cyn Ymgynghori ar ein gwefan yn: www.nhsfuturefit.org

Sut y gallwch chi chwarae rhan

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen y ddogfen hon. Rydyn ni eisiau gwybod beth yw'ch barn chi ac mae yna nifer o ffyrdd o roi gwybod inni:

Llenwi ein harolwg – ar ein gwefan www.nhsfuturefit.org neu yn nhudalennau canol y ddogfen hon, a'i anfon yn rhad ac am ddim i FREEPOST NHS FF CONSULTATION

Mynychu digwyddiad: Gydol y cyfnod ymgynghori, fe fyddwn ni'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau arddangos cyhoeddus lle gallwch chi gyfarfod â'n meddygon, ein nyrsys a staff gofal iechyd eraill, gofyn cwestiynau a chael gwybod mwy. Lle bo'n bosibl, fe fyddwn ni hefyd yn mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau y bydd unigolion a sefydliadau'n eu trefnu ledled yr ardal, felly rhowch wybod inni am unrhyw ddigwyddiadau neu gyfarfodydd y gallen ni eu mynychu. Fe fyddwn ni'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r lleoedd y gallwch chi ddod i siarad â ni ar ein gwefan, yn y papurau lleol ac ar y radio lleol.

Ysgrifennu atom ni: FREEPOST NHS FF CONSULTATION

Anfon e-bost atom ni: nhsfuturefit@nhs.net

Ein ffonio: 0300 3000 903 (peiriant ateb 24 awr)

Twitter: @NHSFutureFit

Facebook: facebook.com/nhsff





Beth sy'n digwydd nesaf?

Fe fydd eich barn chi'n ein helpu ni i benderfynu ar newidiadau i'n gwasanaethau ysbyty. Unwaith y daw'r ymgynghoriad cyhoeddus i ben, fe fydd arbenigwyr ymgynghori, sef Participate Ltd, yn dadansoddi'r holl ymatebion yn ofalus ac yna'n cynhyrchu adroddiad. Fe fydd y Grwpiau Comisiynu Clinigol yn darllen yr adroddiad hwn ac yn ystyried yr holl adborth yn ofalus. Fe fydd Cyd-bwyllgor o Grwpiau Comisiynu Clinigol Sir Amwythig a Telford & Wrekin yn gwneud y penderfyniad terfynol. Fe fydd yr holl adroddiadau a manylion am y broses benderfynu ar gael yn: www.nhsfuturefit.org

Geirfa

Adran Argyfwng
Yr adran mewn ysbyty lle rhoddir gofal argyfwng i gleifion.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Yn gyfrifol am ddiwallu anghenion iechyd a llesiant pobl Powys, canolbarth Cymru.

Canolfan Gofal Brys
Canolfan lle y bydd claf yn cael ei drin os oes ganddo glefyd neu anaf nad yw'n bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff ond sy'n galw am ofal brys.

Canolfan Drawma
Canolfan arbenigol mewn nifer bach o ysbytai sy'n trin cleifion â'r anafiadau mwyaf difrifol sy'n bygwth colli bywyd, fel anafiadau difrifol i'r pen, briwiau difrifol neu ddamweiniau traffig ar y ffordd.

Cardioleg
Y maes meddygaeth sy'n delio â chlefydau ac annormaleddau'r galon.

Claf allanol
Claf sy'n cael ei drin mewn clinig yn ystod y dydd ond nad oes angen iddo aros yn yr ysbyty.

Claf mewnol
Claf y mae angen iddo aros yn yr ysbyty dros nos.

Comisiynu
Comisiynu ydy'r broses ar gyfer penderfynu ar y gwasanaethau sy'n ofynnol a dewis y cyflenwyr mwyaf priodol i ddarparu'r gwasanaethau hynny, sef gwasanaethau iechyd yn yr achos hwn.

Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar Iechyd Sir Amwythig a Telford & Wrekin
Mae'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cynnwys aelodau etholedig o Gynghorau Sir Amwythig a Telford & Wrekin. Ei rôl ydy craffu ar faterion iechyd sy'n effeithio ar gymunedau ledled Sir Amwythig, Telford & Wrekin.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Powys
Sefydliad statudol annibynnol sy'n cynrychioli buddiannau cleifion a'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ym Mhowys.

Endosgopi
Gweithdrefn lle defnyddir offeryn o'r enw endosgop i archwilio'r tu mewn i gorff claf.

GIG Lloegr
GIG Lloegr sy'n arwain y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Lloegr, gan osod blaenoriaethau a chyfeiriad y GIG i wella iechyd a gofal.

Gofal Argyfwng
Triniaeth neu lawdriniaeth heb ei chynllunio y mae angen ei pherfformio ar unwaith oherwydd bod clefyd neu anaf yn bygwth colli bywyd neu aelod o'r corff.

Gofal cynenedigol
Y gofal a roddir i fenyw tra'i bod yn feichiog.

Gofal cynlluniedig
Triniaeth neu lawdriniaeth sydd wedi'i threfnu ymlaen llaw ac sydd ddim yn argyfwng. Bydd cleifion yn aml yn cael eu hatgyfeirio am ofal cynlluniedig gan eu Meddyg Teulu.

Grwpiau Comisiynu Clinigol
Sefydliadau GIG sy'n gyfrifol am brynu a gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwasanaethau gofal iechyd yn eich ardal chi ar eich rhan. Yn achos Sir Amwythig, Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Sir Amwythig ydy'r sefydliad, ac yn achos Telford & Wrekin, Grŵp Comisiynu Clinigol GIG Telford & Wrekin ydy'r sefydliad.

Gwasanaeth Asesu Beichiogrwydd Cynnar (EPAS)
Yn darparu gofal i fenywod sydd a chymhlethdodau yn ystod y 16 wythnos cyntaf o fod yn feichiog.

Gwasanaethau canser
Gwasanaethau ysbyty lle mae cleifion yn cael eu trin ar gyfer canser.

Gwasanaethau Newydd-anedig
Adran mewn ysbyty lle mae babanod sydd wedi'u geni'n rhy gynnar, sydd ddim yn pwyso rhyw lawer neu sydd â chyflwr meddygol yn derbyn gofal arbenigol.

Gynaecoleg
Y maes meddygaeth sy'n delio â chlefydau a chyflyrau meddygol menywod.

Haematoleg
Y maes meddygaeth sy'n galw am astudio a thrin y gwaed.

Healthwatch
Eiriolwr annibynnol sy'n eirioli dros y cyhoedd, cleifion, defnyddwyr gwasanaeth iechyd a gofal, a'u gofalwyr a'u teuluoedd. Healthwatch Telford & Wrekin a Healthwatch Sir Amwythig ydy ein sefydliadau lleol ni.

Llawdriniaethau achosion dydd
Llawdriniaethau cynlluniedig y gellir eu gwneud mewn un diwrnod, fel rheol heb fod angen i'r claf aros yn yr ysbyty dros nos.

NHS Improvement
Mae NHS Improvement yn cefnogi ymddiriedolaethau sefydledig ac ymddiriedolaethau GIG i roi gofal sy'n gyson ddiogel, tosturiol ac o ansawdd uchel o fewn systemau iechyd lleol sy'n ariannol gynaliadwy.

Obstetreg
Y gangen meddygaeth sy'n delio â gofal menywod pan maen nhw'n feichiog, pan maen nhw'n esgor ac ar ôl iddyn nhw esgor.

Orthopaedeg
Mae a wnelo orthopaedeg, neu lawdriniaeth orthopaedig, â chyflyrau sy'n ymwneud â'r esgyrn a'r cymalau, e.e. asgwrn y cefn, y cluniau, y pengliniau, y dwylo a'r traed.

Partneriaeth Cynaliadwyedd a Thrawsnewid
Sefydlwyd y bartneriaeth bum-mlynedd hon yn 2016 ac ynddi mae sefydliadau GIG ac awdurdodau lleol yn cydweithio â chymunedau lleol a'r sector gwirfoddol ar gynllun pum-mlynedd i wella iechyd a gofal mewn ardal.

Uned Achosion Dydd yr Arennau
Yn darparu triniaeth dialysis arennol i gleifion.

Uned Argyfwng Triniaethau Dydd (AEC)
Ar gyfer cleifion y mae angen gofal argyfwng arnyn nhw ar yr un diwrnod, lle mae modd eu hasesu, eu diagnosio a'u trin fel eu bod nhw'n gallu mynd adref yr un diwrnod.

Uned dan arweiniad bydwragedd
Uned famolaeth dan reolaeth bydwragedd sy'n rhoi gofal ac yn helpu mamau a ystyrir yn rhai risg isel i esgor ar eu baban.

Uned Gofal Critigol (CCU)
Ar gyfer cleifion sy'n ddifrifol wael y mae angen gofal ar y lefel uchaf arnyn nhw.

Uned Drawma
Ysbyty mewn Rhwydwaith Trawma sy'n darparu gofal i'r mwyafrif o gleifion sydd wedi'u hanafu.

Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Amwythig a Telford
Prif ddarparwr gwasanaethau ysbyty cyffredinol dosbarth ar gyfer pobl Sir Amwythig, Telford & Wrekin a chanolbarth Cymru. Ysbyty'r Dywysoges Frenhinol yn Telford ac Ysbyty Brenhinol Amwythig yn Amwythig ydy prif leoliadau'r gwasanaethau.

futurefit

Shaping healthcare together

Ffôn: 0300 3000 903

E-bost: nhsfuturefit@nhs.net

Trwy'r post: FREEPOST NHS FF CONSULTATION

Twitter: @NHSFutureFit

Facebook: facebook.com/nhsff

Gwefan: www.nhsfuturefit.org